Estyn




# Medrau llythrennedd, rhifedd a digidol mewn dysgu oedolion yn y gymuned

**Medi 2025**

Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:

- ysgolion a lleoliadau meithrin a gynhelir gan, neu sy'n cael arian gan awdurdodau lleol
- ysgolion cynradd
- ysgolion uwchradd
- ysgolion pob oed
- ysgolion arbennig a gynhelir
- unedau cyfeirio disgyblion
- ysgolion annibynnol
- addysg bellach
- colegau arbenigol annibynnol
- dysgu oedolion yn y gymuned
- gwasanaethau addysg llywodraeth leol
- trefniadau trochi yn y Gymraeg mewn awdurdodau lleol
- gwasanaethau gwaith ieuenctid
- addysg gychwynnol athrawon
- Cymraeg i oedolion
- prentisiaethau
- dysgu yn y sector cyfiawnder

Mae Estyn hefyd:

- yn adrodd i Senedd Cymru ac yn rhoi cyngor ar ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru i Lywodraeth Cymru ac eraill
- yn cyhoeddi arfer dda yn seiliedig ar dystiolaeth arolygu

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

Hawlfraint y Goron 2025: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl: (a) mewn unrhyw fformat neu gyfrwng; a (b) gellir ei gyfieithu gan neu ar ran darparwr addysg a/neu hyfforddiant y mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag ef i unrhyw iaith, ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio ac/neu ei gyfieithu'n gywir ym mhob achos ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Ym mhob achos, rhaid cydnabod y deunydd (gan gynnwys unrhyw gyfieithiad) fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

## Cynnwys Tudalen


**Crynodeb gweithredol** 1
- Ymgysylltu â dysgwyr 1
- Addysgu a dysgu proffesiynol 2
- Darpariaeth a chynnydd 2
- Darpariaeth ddwyieithog a chyfrwng Cymraeg 3

**Cyflwyniad** 4

**Cefndir** 6

**Argymhellion** 8

**Thema 1 – Ymgysylltu â dysgwyr** 10
- Sut mae partneriaethau yn nodi ac yn ymgysylltu â dysgwyr 10
- Rhwystrau mae dysgwyr yn eu hwynebu a sut i addasu ar gyfer y rhain 11

**Thema 2 – Addysgu a Dysgu Proffesiynol** 14
- Asesiad cychwynnol a rôl WEST (Offeryn Sgiliau Hanfodol Cymru) 14
- Sut mae tiwtoriaid yn cynllunio'u rhaglenni i ddiwallu anghenion dysgwyr 16
- Barn tiwtoriaid ar effaith darpariaeth llythrennedd, rhifedd a digidol 19
- Dysgu proffesiynol 20

**Thema 3 – Darpariaeth a chynnydd** 24
- Data cyhoeddedig 24
- Ystod y ddarpariaeth medrau llythrennedd, rhifedd a digidol 26
- Ystod y cyrsiau a gynigir ar gyfer medrau llythrennedd, rhifedd neu ddigidol 31
- Dysgu digidol – fel elfen o ddarpariaeth ac fel offeryn addysgu a dysgu 33
- Effaith Lluosi ar batrymau darpariaeth 35
- Effaith y ddarpariaeth dysgu teuluol 37
- Dilyniant mewn cyrsiau ac ar ôl cyrsiau 39

**Thema 4 – Darpariaeth ddwyieithog a chyfrwng Cymraeg** 44

**Atodiad 1 – partneriaethau DOG a'u hawdurdodau lleol** 47

**Dulliau a sail y dystiolaeth** 49
- Ymweliadau â darparwyr 49
- Holiaduron ar-lein 50

Methodoleg ar gyfer dadansoddi set ddata Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru a gynhaliwyd gan ystadegwyr Medr ........ 50

**Geirfa ........ 51**

Niferoedd – symiau a chyfrannau ........ 54

**Cyfeiriadau ........ 55**

# Crynodeb gweithredol

Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar y ddarpariaeth ar gyfer medrau llythrennedd, rhifedd a digidol ar gyfer oedolion – sef rhan arwyddocaol o'r cynnig yn y sector dysgu oedolion yn y gymuned (DOG). I lawer o ddysgwyr, mae'n 'ail gyfle' i ddatblygu'r medrau sylfaenol hyn, neu wella'u rhagolygon am swydd, cynorthwyo'u plant neu fagu'r hyder i gymryd rhan yn llawn mewn cymdeithas.

Mae'r adroddiad yn defnyddio ymweliadau gan arolygwyr ar ddiwedd 2024 a dechrau 2025 ag 8 o'r 13 partneriaeth dysgu oedolion yn y gymuned, ac ag Addysg Oedolion Cymru. Cynhaliom arolwg ar-lein ar gyfer tiwtoriaid DOG. Buom yn dadansoddi data o'r set ddata swyddogol, a data a ddychwelwyd atom ni mewn cais i bartneriaethau unigol. Defnyddiom dystiolaeth o'n harolygiadau ac ymweliadau cyswllt blynyddol â phartneriaethau DOG.

## Ymgysylltu â dysgwyr

Mae dysgwyr yn wynebu nifer o rwystrau sy'n eu rhwystro rhag ailymgysylltu ag addysg. Mae'n ymddangos bod y rhain wedi cynyddu dros y blynyddoedd diwethaf. Y rhwystr unigol mwyaf yw hyder dysgwyr. Gallai dysgwyr deimlo'n amharod i gyfaddef fod angen help arnynt neu deimlo'n orbryderus am feddwl mynychu lleoliad dysgu ffurfiol. Mae rhwystrau eraill yn cynnwys mynediad at ddyfeisiau digidol, cyfyngiadau ariannol, materion iechyd meddwl, anawsterau dysgu heb eu canfod neu heb gefnogaeth ar eu cyfer, neu ble nad ydynt yn siarad Cymraeg neu Saesneg fel eu hiaith gyntaf. Dywed dysgwyr hefyd fod anhawster dod o hyd i wybodaeth am gyrsiau yn gallu bod yn rhwystr. Mae partneriaethau wedi gwella'u gwefannau i alluogi dysgwyr i chwilio am gyrsiau'n fwy effeithiol, ond, ar y cyfan, mae gwefannau partneriaethau yn gymhleth i'w llywio o hyd neu'n defnyddio iaith neu fformatio nad yw efallai'n hygyrch i ddysgwyr, neu ddarpar ddysgwyr. Rydym yn cynnwys argymhelliad ar gyfer partneriaethau i sicrhau bod ganddynt ffyrdd syml a hygyrch i ddarpar ddysgwyr ddod i wybod am eu darpariaeth.

Mae gan bartneriaethau  ddealltwriaeth dda o'r rhwystrau hyn ac maent wedi ceisio lleihau llawer ohonynt. Fodd bynnag, mae partneriaethau'n wynebu heriau o ran ymgysylltu â dysgwyr, ac mae cyfyngiadau a diffyg eglurder am sut maent yn gwario'u cyllid ar ymgysylltu neu ddarpariaeth dysgu teuluol yn lleihau eu gallu i recriwtio dysgwyr sy'n anodd eu cyrraedd. Mae darparwyr yn dweud hefyd fod heriau sylweddol o ran ariannu eu lleoliadau cymunedol. Rydym yn cynnwys argymhellion i Medr / Llywodraeth Cymru i ddatblygu canllawiau clir a hyblyg i ddarparwyr am yr ystod a math o ddarpariaeth y gallant ei hariannu trwy'r grant dysgu cymunedol (yn enwedig am ddarpariaeth ymgysylltu – i'r rhai y mae angen camau cyntaf arnynt tuag at ddysgu ffurfiol); a gwella argaeledd a chysondeb rhaglenni dysgu teuluol.

## Addysgu a dysgu proffesiynol

Gwelom fod addysgu'n effeithiol yn y rhan fwyaf o'n harsylwadau ar gyfer yr adolygiad thematig hwn, sy'n gyson â'n canfyddiadau o arolygiadau. Mae tiwtoriaid yn personoli eu hymagweddau at ddiwallu anghenion dysgwyr unigol, gan ystyried ffafriaethau a chryfderau a gwendidau unigol dysgwyr. Mae'r rhan fwyaf o diwtoriaid yn rhoi cymorth un i un hynod effeithiol ac yn ei ddefnyddio i deilwra'u cyflwyno a rhoi adborth sy'n helpu dysgwyr i wybod sut i wella.

Yn yr enghreifftiau prin lle roedd addysgu'n llai effeithiol, roedd dau faes cyffredinol i'w gwella. Y maes cyntaf yw ble nad oedd tiwtoriaid yn adeiladu'n effeithiol ar wybodaeth a phrofiad blaenorol y dysgwr ac nid oedd ganddynt ddealltwriaeth ddigon eang o'r ystod o ddulliau y gellir eu defnyddio i gwblhau gweithrediadau mathemategol, er enghraifft. Yr ail yw ble roedd tiwtoriaid yn dibynnu'n ormodol ar lyfrau gwaith fel eu prif adnodd ar gyfer addysgu. Yn yr achosion hyn, nid oedd tiwtoriaid yn cynnwys digon o amrywiaeth yn eu haddysgu, ac roedd dysgwyr yn diflasu, yn colli cymhelliant neu'n ymddieithrio. Rydym yn cynnwys argymhellion ar gyfer Llywodraeth Cymru, Medr, partneriaethau a thiwtoriaid i wella'r dysgu proffesiynol ar gyfer tiwtoriaid yn y sector i gefnogi eu medrau addysgu yn benodol i bwnc.

## Darpariaeth a chynnydd

Mae darparwyr yn defnyddio ystod eang o gyrsiau achrededig ac anachrededig i gyflwyno medrau llythrennedd, rhifedd a digidol oedolion ac rydym yn rhoi enghreifftiau o ystod y cyrsiau a gynigir. Mae data perfformiad cyhoeddedig yn dangos bod tua 84% o ddysgwyr ym mhob darpariaeth DOG wedi cwblhau eu cyrsiau a'u cymwysterau yn llwyddiannus yn 2022-2023. Fodd bynnag, ar lefel partneriaeth a lefel system, ni chaiff gwybodaeth a gesglir am gofrestru a chadw dysgwyr ar raglenni ei defnyddio'n ddigon effeithiol i werthuso sut mae dysgwyr yn symud ymlaen trwy eu cyrsiau ac yn datblygu eu medrau dros gyfnod. Mae gwerth cyfyngedig i'r model casglu a dadansoddi data presennol o ran llunio mewnwelediadau am batrymau ac effeithiolrwydd y ddarpariaeth. O ganlyniad, mae bylchau pwysig mewn deall effaith y ddarpariaeth ar ddeilliannau hirdymor dysgwyr. Rydym yn argymell y dylid canolbwyntio'n gliriach ar ba mor effeithiol y mae darpariaeth yn cynorthwyo dysgwyr i wneud cynnydd. Rydym yn argymell y dylai Medr helpu datblygu methodolegau i fesur dilyniant dysgwyr i ddarpariaeth medrau llythrennedd, rhifedd a digidol, o fewn y ddarpariaeth, a'r tu hwnt iddi. Rydym yn argymell y dylai partneriaethau sicrhau eu bod yn cynllunio llwybrau ar gyfer dysgwyr ac yn gwerthuso pa mor effeithiol y mae dysgwyr yn symud trwyddynt, gan ddefnyddio ystod eang o wybodaeth.

Rydym wedi bod yn feirniadol o bartneriaethau DOG mewn adroddiadau arolygu lle mae gwaith partneriaeth neu gynllunio gwael wedi golygu nad yw llwybrau dilyniant ar gyfer dysgwyr wedi bod yn glir, ac na roddwyd gwybodaeth o ansawdd digon da i ddysgwyr i'w helpu i feddwl am eu camau nesaf. Rydym yn cynnwys argymhellion i wella gwaith partneriaeth i ymgysylltu â dysgwyr newydd a chynllunio ar gyfer llwybrau dilyniant cliriach.

Cafodd menter Lluosi Llywodraeth y Deyrnas Unedig ddylanwad sylweddol ar ddarpariaeth rhifedd mewn partneriaethau ledled Cymru rhwng canol 2023 a mis Mawrth 2025. Gyda dyraniad cyllid hynod fawr (£100m ledled Cymru), roedd partneriaethau'n gallu datblygu cydweithrediadau newydd â grwpiau cymunedol, ymgysylltu â dysgwyr newydd nad oeddent wedi eu cyrraedd yn y gorffennol, ac roeddent yn greadigol o ran datblygu cyrsiau anachrededig, oedd yn canolbwyntio ar rifedd. Dangosodd y rhain fod galw am y math hwn o ddarpariaeth. Fodd bynnag, roedd partneriaethau'n mynegi rhwystredigaeth yn aml ynghylch natur 'gwledda a llwgu' cyllid Lluosi, a chan mai dim ond yn ddiweddar y sefydlwyd darpariaeth gyda chyllid Lluosi, roeddent wrthi'n pontio oddi wrtho.

Mae gan ddysgu digidol rôl bwysig, fel maes darpariaeth ar wahân ac fel offeryn addysgu integredig. Yn aml, mae cyrsiau medrau digidol yn llai brawychus i ddysgwyr ac yn bwyntiau mynediad hygyrch i addysg llythrennedd neu rifedd. Mae tiwtoriaid hefyd yn integreiddio offer digidol mewn gwersi llythrennedd a rhifedd craidd, sy'n gwella ymgysylltiad dysgwyr a pherthnasedd y sesiynau. Mae'r heriau'n cynnwys gwahanol alluoedd digidol dysgwyr, cyfyngiadau amser, a'r angen am dechnoleg ddibynadwy. Yn aml, mae tiwtoriaid yn defnyddio offer fel asesiad ar-lein Pecyn Cymorth Sgiliau Hanfodol Cymru (WEST) ar gyfer llythrennedd a rhifedd, ond gall y rhain greu anawsterau i'r rhai sydd â hyder digidol isel.

Mynegodd y rhan fwyaf o ddysgwyr ffafriaeth glir am ddysgu wyneb yn wyneb dros ddulliau dysgu o bell ar-lein, a gwelom fod y rhan fwyaf o bartneriaethau'n cynnwys cydbwysedd priodol rhwng dysgu wyneb yn wyneb a dysgu o bell ar-lein, ac roedd tua 5 – 15% o'r ddarpariaeth yn cael ei chynnig ar-lein, yn nodweddiadol.

## Darpariaeth ddwyieithog a chyfrwng Cymraeg

At ei gilydd, gwelom mai ychydig iawn o ddarpariaeth oedd yn cael ei chynnig trwy gyfrwng y Gymraeg, ac roedd y galw gan ddysgwyr neu ddarpar ddysgwyr yn isel, ar y cyfan. Mewn ardaloedd sy'n naturiol ddwyieithog fel Gwynedd ac Ynys Môn, roedd y cyflwyno yn aml yn ddwyieithog, ond roedd asesiadau fel arfer yn Saesneg. Roedd dysgwyr yn tueddu i flaenoriaethu caffael medrau dros yr iaith gyflwyno, ac roedd yn well gan lawer ohonynt wella llythrennedd Saesneg na Chymraeg. Roedd mwy o ddiddordeb mewn dysgu rhifedd trwy gyfrwng y Gymraeg gan eu bod yn gyfarwydd â therminoleg fathemategol. Roedd dysgwyr sy'n siarad Cymraeg sy'n dilyn cyrsiau medrau digidol, yn enwedig cyrsiau wedi'u cynllunio i gynorthwyo dysgwyr sy'n nodweddiadol yn hŷn i ddefnyddio'u dyfeisiau, yn mynegi galw cryfach am gyflwyno cyfrwng Cymraeg, ar y cyfan.

Mae cyflwyno llwyddiannus trwy gyfrwng y Gymraeg yn aml yn deillio o gydweithio â grwpiau cymunedol fel y Mentrau Iaith. Roedd rhaglenni dysgu teuluol hefyd yn cefnogi ymgysylltu â darpariaeth Gymraeg, yn enwedig trwy gynlluniau wedi'u hariannu gan Lluosi. Rydym yn cynnwys argymhelliad y dylai partneriaethau nodi cyfleoedd i gydweithio â sefydliadau lleol sy'n bodoli eisoes i gynnig darpariaeth cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog.

# Cyflwyniad

Ysgrifennwyd yr adroddiad thematig hwn i ymateb i gais am gyngor gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg yn y llythyr cylch gwaith i Estyn ar gyfer 2024-2025. Mae'r adroddiad yn ystyried pa mor effeithiol y caiff medrau llythrennedd, rhifedd a digidol eu cyflwyno trwy ddarpariaeth dysgu oedolion yn y gymuned (DOG). Mae'r adroddiad wedi'i fwriadu ar gyfer Llywodraeth Cymru, Medr, arweinwyr ac athrawon a thiwtoriaid[1] mewn partneriaethau dysgu oedolion yn y gymuned a phobl eraill sydd â diddordeb yn y sector.

Mae'r adroddiad yn defnyddio ymweliadau gan arolygwyr yn ystod tymor yr Hydref 2024 a thymor y Gwanwyn 2025 ag 8 o'r 13 partneriaeth dysgu oedolion yn y gymuned, ac ag Addysg Oedolion Cymru, sef y coleg addysg bellach ar gyfer dysgu oedolion. Cynhaliom arolwg ar-lein ar gyfer tiwtoriaid a rheolwyr yn y sector DOG. Buom yn dadansoddi data o set ddata swyddogol CDGOC, a data a ddychwelwyd atom ni mewn cais i bartneriaethau unigol. Rydym hefyd yn defnyddio canfyddiadau o'n harolygiadau a'n hymweliadau cyswllt blynyddol â phartneriaethau DOG.

Mae rhoi 'ail gyfle' i oedolion wella'u medrau llythrennedd a rhifedd a gwella'u medrau digidol yn rhan graidd o waith y sector dysgu oedolion yn y gymuned. Mae'r medrau hyn yn sylfeini hanfodol i helpu oedolion i gymryd rhan yn llawn mewn cymdeithas ac yn eu cymunedau, i weithio neu wella'u rhagolygon swydd, i gynorthwyo'u plant a gwella'u hyder a'u hunan-barch. Yn ogystal â darpariaeth medrau llythrennedd, rhifedd a digidol, mae partneriaethau DOG yn cyflwyno ystod o raglenni eraill, sy'n cydgysylltu ac wedi'u bwriadu i ennyn diddordeb oedolion mewn dysgu a meithrin eu lles. Er mai ffocws yr adroddiad hwn yw darpariaeth llythrennedd, rhifedd a digidol, mae ein canfyddiadau a'n hargymhellion yn croesi drosodd i gwmpas ehangach darpariaeth dysgu oedolion yn y gymuned.

Mae'r adroddiad wedi'i strwythuro o gwmpas pedair thema. Y thema gyntaf yw sut mae partneriaethau'n ymgysylltu â darpar ddysgwyr i gymryd y camau cyntaf yn ôl i addysg ffurfiol. Mae llawer o ddysgwyr yn wynebu rhwystrau sylweddol rhag cymryd y cam hwn. Yr un mwyaf arwyddocaol yw diffyg hyder – roedd rhywbeth wedi tarfu ar brofiadau addysg llawer o ddysgwyr neu efallai nad oeddent wedi mwynhau eu haddysg yn yr ysgol. Gall croesi trothwy lleoliad dysgu yn unig fod yn frawychus. Rydym yn disgrifio'r rhwystrau hyn yn fanylach a sut mae partneriaethau wedi ceisio'u lleihau trwy gynllunio'u rhaglenni. Rydym hefyd yn trafod yr heriau sy'n wynebu partneriaethau wrth gynllunio ac ariannu eu rhaglenni.

Mae'r ail thema'n ymwneud ag addysgu a dysgu proffesiynol. Arsylwom nifer o sesiynau addysgu yn ystod ein hymweliadau, a siarad â llawer o diwtoriaid. Ymatebodd dros 100

[1] Gweler y nodyn yn yr Eirfa am ddefnyddio'r termau 'athrawon' a 'tiwtoriaid' yn yr adroddiad hwn.

o diwtoriaid a staff i'n harolwg ar-lein. Rydym yn trafod sut mae tiwtoriaid yn asesu mannau cychwyn eu dysgwyr ac yn teilwra'u cyflwyno a'u rhaglenni yn unol â hynny. Rydym yn amlinellu ffocws dysgu proffesiynol tiwtoriaid ac yn amlygu meysydd ble gellid ei wella.

Yn y drydedd thema, rydym yn ystyried ystod y ddarpariaeth a gynigir a'r cynnydd mae dysgwyr yn ei wneud. Rydym yn cyflwyno mewnwelediadau o'r data swyddogol cyhoeddedig ond hefyd yn tynnu sylw at gyfyngiadau'r model presennol i gasglu a dadansoddi data; yn fwyaf amlwg, nad yw'n helpu partneriaethau a rhanddeiliaid eraill i werthuso'r cynnydd mae dysgwyr yn ei wneud wrth symud i ddarpariaeth medrau llythrennedd, rhifedd a digidol DOG, o fewn y ddarpariaeth, a'r tu hwnt iddi. Rydym yn edrych ar ystod y cyrsiau y mae partneriaethau'n eu cynnig ac yn ystyried effaith dysgu teuluol, dysgu digidol a menter ddiweddar Lluosi a ariennir gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig.

Yn ein pedwaredd thema, rydym yn edrych ar ddarpariaeth ddwyieithog a chyfrwng Cymraeg. Ychydig iawn o ddarpariaeth medrau llythrennedd, rhifedd neu ddigidol sy'n cael ei chynnal yn ddwyieithog neu yn Gymraeg, ac fe gaiff hyd yn oed llai o'r ddarpariaeth ei hasesu. Pan mae'r ddarpariaeth yn fwyaf effeithiol, caiff ei chynnig ar y cyd â sefydliadau lleol sydd eisoes yn gweithio gyda chymunedau sy'n siarad Cymraeg. Rydym yn archwilio natur y galw am y ddarpariaeth hon a'r croesi posibl rhwng darpariaeth dysgu oedolion yn y gymuned a darpariaeth Dysgu Cymraeg ¦ Learn Welsh ar gyfer oedolion sy'n dymuno dysgu neu wella'u medrau Cymraeg.

Rydym yn diolch i bob un o'r dysgwyr, y tiwtoriaid a'r rheolwyr o bartneriaethau dysgu oedolion yn y gymuned a gymerodd ran yn ein harolwg ar-lein, mewn arsylwadau ac mewn cyfarfodydd, am eu cyfraniad i'r adroddiad hwn.

# Cefndir

Ni chynhaliwyd arolwg cynhwysfawr o fedrau llythrennedd a rhifedd oedolion yng Nghymru er 2010 (Llywodraeth Cymru, 2011). Canfu'r arolwg hwnnw fod gan 12% o oedolion lythrennedd lefel mynediad neu'n is, roedd 29% ar lefel 1 a 59% ar lefel 2 neu'n uwch. Aseswyd bod medrau rhifedd cyfran uwch o oedolion ar lefel mynediad neu'n is (51%), roedd 29% ar lefel 1, a 22% ar lefel 2 neu'n uwch. Roedd lefelau llythrennedd a rhifedd yn is ymhlith oedolion di-waith, y rhai â lefelau is o incwm aelwyd a'r rhai heb gymwysterau uwch.

O gymharu â'r Deyrnas Unedig gyfan, mae lefelau cymhwyster a ddelir gan oedolion yng Nghymru wedi bod yn gyson is na chyfartaledd y Deyrnas Unedig (Llywodraeth Cymru, 2025). Mae'r bwlch rhwng y rhai sy'n gymwys i lefel 2 neu'n uwch o gymharu â'r rhai heb unrhyw gymwysterau wedi ehangu er 2008 (Llywodraeth Cymru, 2025).

Yn ôl Arolwg Cyfranogiad Oedolion mewn Dysgu yng Nghymru 2023 (Sefydliad Dysgu a Gwaith, 2024), Cymru sydd â'r gyfradd cyfranogiad mewn dysgu isaf o blith gwledydd a rhanbarthau'r Deyrnas Unedig. Dywedodd tua 2 o bob 5 oedolyn (41%) eu bod wedi dysgu dros y tair blynedd ddiwethaf, o gymharu â 49% yn y Deyrnas Unedig.

Mae darpariaeth medrau llythrennedd, rhifedd a digidol ar gyfer oedolion yn rhan graidd o waith partneriaethau dysgu oedolion yn y gymuned (DOG – gweler yr Eirfa) yng Nghymru. At ddibenion ein gweithgarwch arolygu – ac ar gyfer yr adolygiad thematig hwn – rydym yn cydnabod 13 o bartneriaethau DOG, a'r sefydliad addysg bellach dynodedig ar gyfer dysgu oedolion yn y gymuned, sef Addysg Oedolion Cymru. Gweler Atodiad 1 am restr o'r partneriaethau a'u hawdurdodau lleol priodol.

Mae aelodaeth pob partneriaeth yn wahanol o un ardal i'r llall, ond mae'r rhan fwyaf ohonynt yn cynnwys darpariaeth a gynigir gan yr awdurdod lleol, colegau addysg bellach, yn cynnwys Addysg Oedolion Cymru, a sefydliadau gwirfoddol neu gymunedol.

Mae dysgu oedolion yn y gymuned fel arfer yn cael ei gynnal mewn lleoliadau fel llyfrgelloedd, canolfannau dysgu cymunedol neu ysgolion. Er bod y rhan fwyaf o gyrsiau'n cael eu cyflwyno wyneb yn wyneb, mae bron pob un o'r partneriaethau'n cyflwyno rhywfaint o'u darpariaeth ar-lein neu mewn ffordd gyfunol.

Y data swyddogol cyhoeddedig diweddaraf ar ddysgwyr wedi'u cofrestru a'u gweithgareddau ar gyfer y sector DOG (Llywodraeth Cymru, 2024a) yw data ar gyfer 2022-2023[2] ac mae'n dangos bod nifer y dysgwyr unigryw sy'n oedolion sy'n ymgysylltu â'r ddarpariaeth hon wedi cynyddu 53% o gymharu â'r flwyddyn flaenorol, o 10,440 i 16,005. Mae'r cynnydd a welwyd ers y pwynt isel yn 2020-2021 wedi gwrthdroi tuedd o

[2] Adeg ysgrifennu (18 Mehefin 2025), nid yw data'r sector DOG ar gyfer 2023-2024 wedi cael ei gyhoeddi oherwydd materion ansawdd data (Medr, 2025a).

ostyngiad tymor hirach yn rhannol. Gallai niferoedd is yn y blynyddoedd diwethaf fod o ganlyniad i bandemig COVID-19.

Mae Medr (y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil) yn gorff hyd braich o Lywodraeth Cymru, a sefydlwyd gan Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 i ariannu a rheoleiddio'r sector addysg drydyddol yng Nghymru (Medr, 2025e). Mae'n ymateb i'r blaenoriaethau strategol a amlinellwyd gan weinidogion Cymru (Llywodraeth Cymru, 2024c). Er mis Awst 2024, mae Medr yn ariannu partneriaethau DOG trwy'r grant dysgu cymunedol blynyddol, i gyflwyno cyrsiau:

- ar gyfer datblygu medrau llythrennedd, rhifedd a digidol
- mewn Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill (SSIE)
- ar gyfer dysgwyr hŷn sy'n hyrwyddo ymgysylltiad cymdeithasol
- sy'n datblygu medrau cyflogadwyedd;
- a chyrsiau eraill sy'n helpu ennyn diddordeb oedolion mewn dysgu

Yn 2024-2025, cyfanswm y grant dysgu cymunedol oedd tua £6.6m ar gyfer partneriaethau DOG ledled Cymru (Medr, 2025c), gyda swm tebyg, o'r dyraniad cyllid addysg bellach, ar gyfer Addysg Oedolion Cymru.

Er 2024, mae Medr wedi ariannu Coleg Pen-y-bont yn uniongyrchol i gyflwyno darpariaeth yn y sir.

Mae colegau addysg bellach hefyd yn cyfrannu at ddarpariaeth dysgu oedolion yn y gymuned trwy eu cyfranogiad mewn partneriaethau, naill ai drwy drefniadau rhyddfraint gyda'r awdurdod lleol lle caiff eu darpariaeth ei hariannu trwy'r grant dysgu cymunedol, neu drwy eu dyraniad cyllid rhan-amser.

Roedd partneriaethau'n cyfranogi'n gryf yng ngheisiadau eu hawdurdodau lleol a'u colegau addysg bellach ar gyfer menter rhifedd oedolion a ariennir gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig, sef Lluosi (Llywodraeth y Deyrnas Unedig 2022a). Bwriad y cyllid hwn oedd datblygu ystod o ddarpariaeth newydd i ymgysylltu â dysgwyr a datblygu medrau rhifedd.

## Argymhellion

Dylai Medr a Llywodraeth Cymru:

A1 Adolygu'r ffordd y defnyddir data i fesur deilliannau ar gyfer dysgwyr mewn DOG, gyda ffocws newydd ar ba mor effeithiol y mae darpariaeth yn cynorthwyo dysgwyr i wneud cynnydd

A2 Datblygu methodolegau ar gyfer mesur dilyniant a chadw dysgwyr mewn darpariaeth DOG, o fewn y ddarpariaeth, a'r tu hwnt iddi

A3 Gwella cyfleoedd i bartneriaethau gymharu a meincnodi eu cynnig darpariaeth, dilyniant dysgwyr a deilliannau gyda phartneriaethau eraill

A4 Datblygu canllawiau clir ar gyfer partneriaethau DOG am y disgwyliadau ar gyfer eu darpariaeth, gyda chydbwysedd lleol addas a hyblyg ar gyfer:

- ymgysylltiad, ar gyfer y rhai y mae angen iddynt gymryd y camau cyntaf tuag at ddysgu ffurfiol
- medrau llythrennedd, rhifedd a digidol
- medrau i baratoi oedolion ar gyfer cyflogaeth a chwilio am swydd
- lles a datblygiad personol
- darpariaeth a gynigir yn ddwyieithog neu drwy gyfrwng y Gymraeg

A5 Gwella argaeledd a chysondeb rhaglenni dysgu teuluol, fel ffordd o ennyn diddordeb dysgwyr a darpar ddysgwyr yn narpariaeth medrau llythrennedd, rhifedd a digidol dysgu oedolion yn y gymuned

A6 Sicrhau bod gan bartneriaethau gytundebau partneriaeth cadarn rhwng eu darparwyr cyfansoddol, gan amlinellu'n glir y trefniadau ar gyfer arweinyddiaeth ac atebolrwydd, cyllid, darpariaeth, dilyniant a sicrhau ansawdd

A7 Hyrwyddo dysgu proffesiynol – achrededig ac anachrededig – sy'n cynorthwyo tiwtoriaid i ddatblygu medrau addysgu yn benodol i bwnc

Dylai partneriaethau:

A8 Sicrhau bod gan ddysgwyr neu ddarpar ddysgwyr ffyrdd hygyrch ac uniongyrchol o ddod i wybod am ddarpariaeth y bartneriaeth lawn, sy'n ystyried y rhwystrau sy'n wynebu oedolion wrth ymgysylltu â dysgu

A9 Sicrhau bod cynllunio darpariaeth yn caniatáu llwybrau clir i ddysgwyr i symud ymlaen i lefelau pellach wrth iddynt ddysgu medrau llythrennedd, rhifedd a digidol

A10 Mireinio hunanwerthuso i ganolbwyntio'n gliriach ar sut mae dysgwyr yn symud ymlaen i ddarpariaeth llythrennedd, rhifedd a digidol, trwy'r ddarpariaeth, a'r tu hwnt iddi

A11 Defnyddio ystod eang o wybodaeth i werthuso sut mae dysgwyr yn gwneud cynnydd, gan gynnwys deilliannau a data cofrestru, ond gwybodaeth hefyd o gynlluniau dysgu unigol, gwybodaeth o asesiadau cychwynnol ac ailadroddol a dyheadau'r dysgwyr eu hunain

A12 Gwneud y mwyaf o gyfleoedd i weithio mewn partneriaeth â sefydliadau cymunedol, ysgolion ac asiantaethau statudol i ennyn diddordeb dysgwyr newydd mewn darpariaeth i gefnogi medrau llythrennedd, rhifedd a digidol

A13 Nodi cyfleoedd i weithio mewn partneriaeth i gynnig darpariaeth cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog

A14 Sicrhau bod dysgu proffesiynol ar gyfer tiwtoriaid yn cynnwys ffocws priodol ar ddatblygu medrau addysgu yn benodol i bwnc fel bod gan diwtoriaid ystod eang o offer addysgu i ddiwallu anghenion dysgwyr

Dylai tiwtoriaid:

A15 Sicrhau bod eu harfer addysgu yn cael ei llywio gan ddysgu proffesiynol yn yr addysgeg sy'n benodol i bwnc ar gyfer addysgu medrau llythrennedd, rhifedd a digidol i oedolion

# Thema 1 – Ymgysylltu â dysgwyr

## Sut mae partneriaethau yn nodi ac yn ymgysylltu â dysgwyr

Dros y blynyddoedd diwethaf, rydym wedi gadael argymhellion mewn adroddiadau arolygu ar gyfer partneriaethau yn aml i wella'r modd maent yn cyfleu ystod y ddarpariaeth ar gyfer oedolion sydd ar gael yn ardal y bartneriaeth (e.e. Estyn, 2022a, tud. 96; Estyn, 2024a). Pan rydym wedi gadael yr argymhellion hyn, gwnaed hyn oherwydd ei bod yn anodd dod o hyd i ddeunydd cyfathrebu'r bartneriaeth, roedd wedi'i gyfyngu i safleoedd cyfryngau cymdeithasol ar gyfer aelodau yn unig, nid oedd yn defnyddio iaith a fyddai'n glir i ddarpar ddysgwyr neu nid oedd yn rhoi trosolwg o ystod lawn y ddarpariaeth a gynigir gan wahanol ddarparwyr.

Ar draws y sector, rydym wedi gweld gwelliant yn y ffordd y mae partneriaethau'n defnyddio'u gwefannau i hysbysu dysgwyr a darpar ddysgwyr am eu darpariaeth. Fodd bynnag, nid yw gwefannau lleiafrif o bartneriaethau yn syml i'w llywio o hyd, neu maent yn defnyddio iaith neu osodiadau nad ydynt efallai'n gwbl hygyrch i ddarpar ddysgwyr neu ddysgwyr presennol.

Mae ychydig o bartneriaethau wedi ailddylunio'u gwefannau gan alluogi defnyddwyr i chwilio a phori trwy gyrsiau a gynigir gan bob un o'r darparwyr yn y bartneriaeth. Mae partneriaethau eraill wedi gwella natur weladwy dolenni at wefannau eu partneriaid er mwyn i ddefnyddwyr allu dod o hyd i'w ffordd yn symlach rhyngddynt i chwilio am gyrsiau.

Mae enghreifftiau o wefannau partneriaethau sy'n cynnwys un neu fwy o'r nodweddion buddiol hyn yn cynnwys:

- Partneriaeth Dysgu Oedolion Abertawe – https://learningswansea.wales/adre – mae'n galluogi dysgwyr a darpar ddysgwyr i chwilio am gyrsiau a dolenni at wefannau darparwyr partner
- Partneriaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned Powys Castell-nedd Port Talbot – https://www.powysneathalc.co.uk/cy/hafan/ – mae'n cynnwys cyfleuster chwilio ac yn rhoi dolenni allan at wefannau partneriaid
- Partneriaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned Gogledd Ddwyrain Cymru (Wrecsam a Sir y Fflint) – https://www.siryfflint.gov.uk/cy/Resident/Adult-Community-Learning/Home.aspx – mae'n rhoi trosolwg o'r bartneriaeth a dolenni at safle cyfryngau cymdeithasol y bartneriaeth
- Sir Benfro yn Dysgu – https://www.sir-benfro.gov.uk/addysg-i-oedolion – cynhelir hyn ar wefan Cyngor Sir Penfro ac mae'n galluogi defnyddwyr i chwilio am gyrsiau a gwneud cais ar-lein

Mae partneriaethau hefyd yn defnyddio dulliau fel gollwng taflenni i drigolion, sesiynau rhagflas, posteri mewn llyfrgelloedd a lleoliadau cymunedol, digwyddiadau allymestyn cymunedol a nosweithiau agored. Caiff dysgwyr eu cyfeirio at bartneriaethau DOG hefyd

trwy asiantaethau fel Canolfan Byd Gwaith neu'r Adran Gwaith a Phensiynau, neu drwy atgyfeiriadau rhwng darparwyr.

Dywedodd dysgwyr wrthym yn aml mai argymhelliad gan ffrind neu aelod o'r teulu yw un o'r ffyrdd mwyaf effeithiol o hyd y maent yn clywed am gwrs.

## Rhwystrau mae dysgwyr yn eu hwynebu a sut i addasu ar gyfer y rhain

Siaradom â llawer o ddysgwyr a staff addysgu yn ystod ein hymweliadau â darparwyr. Yn ein harolwg ar-lein o diwtoriaid, soniodd 106 o ymatebwyr (o 114) am y rhwystrau sy'n wynebu dysgwyr wrth ailymgysylltu â dysgu i'w helpu i ddatblygu eu medrau llythrennedd a rhifedd. Daeth sawl thema gyson i'r amlwg o'r ymweliadau a'r arolwg, yn unol ag astudiaethau eraill yn trafod cymhelliant oedolion a rhwystrau rhag dychwelyd i addysg (e.e. Estyn, 2020a; Llywodraeth y Deyrnas Unedig, 2018).

Ar y cyfan, mynegodd tiwtoriaid a rheolwyr y farn fod y rhwystrau rhag cyfranogiad dysgwyr wedi cynyddu dros y blynyddoedd diwethaf, yn enwedig o ran hyder dysgwyr a'u parodrwydd cychwynnol i ymgysylltu ag addysg.

Diffyg hyder a hunan-gred oedd y rhwystr unigol y soniwyd amdano amlaf. Gall dysgwyr deimlo embaras am eu bylchau canfyddedig o ran medrau a bod yn amharod i gyfaddef bod angen help arnynt. Efallai eu bod yn ofni cael eu barnu, methu, neu gael eu cymharu â phobl eraill. Mae'r diffyg hunan-gred hwn yn hynod amlwg ar gyfer y rhai sydd wedi wynebu profiadau dysgu negyddol neu drawmatig yn y gorffennol, gan eu gadael yn orbryderus am ddychwelyd i addysg. I rai dysgwyr, mae meddwl am 'groesi trothwy' sefydliad addysg ffurfiol - ysgol neu goleg - yn ddigon i'w hatal rhag gwneud cais. Roedd y dysgwyr hyn yn arbennig yn gwerthfawrogi'r cyfle i ddysgu mewn lleoliadau a oedd yn cael eu hamgyffred yn llai bygythiol, fel canolfannau cymunedol, neu pan roeddent yn mynd i ysgol yn rôl rhiant, gofalwr neu nain/taid yn bennaf, yn hytrach na dysgwr.

Yn fwyaf amlwg, soniodd dysgwyr am lai o bryder ynghylch cael cymorth ar gyfer eu medrau digidol – nid yw medrau digidol gwael yn creu'r un gwarth canfyddedig â medrau rhifedd neu lythrennedd gwael.

Mae cyfle i ddefnyddio adnoddau hanfodol fel dyfeisiau digidol, rhyngrwyd dibynadwy, a chludiant yn creu heriau i lawer o ddysgwyr, yn enwedig y rhai mewn ardaloedd gwledig neu'r rhai sydd dan anfantais economaidd. Mae cyfyngiadau ariannol, yn cynnwys cost gofal plant, ffioedd cyrsiau, neu gludiant, yn cyfyngu ar gyfranogiad ymhellach. Gallai amserlenni gwaith anrhagweladwy a chyfrifoldebau teuluol ei gwneud yn anodd i ddysgwyr ymrwymo i bresenoldeb rheolaidd.

Roedd problemau iechyd meddwl, gan gynnwys gorbryder, iselder, a gwydnwch isel, yn cael eu crybwyll yn aml, hefyd. Cyfeiriodd tiwtoriaid a dysgwyr at effeithiau parhaol pandemig COVID-19, ac nid oedd dysgwyr a darpar ddysgwyr wedi adfer yn llawn o effeithiau ynysu, yr effeithiau tymor hirach i'w hyder a'r ffaith eu bod wedi 'rhoi'r gorau' i ymgysylltu â dysgu.

Mae anawsterau dysgu heb ddiagnosis neu nad oes cefnogaeth ar eu cyfer, fel dyslecsia, awtistiaeth, neu ADHD, yn creu rhwystrau i rai dysgwyr a darpar ddysgwyr. Gall y problemau hyn gael eu cymhlethu os oes diffyg cymorth teilwredig neu amgylchedd dysgu anaddas. Yn yr un modd, gall dysgwyr â heriau corfforol wynebu rhwystrau ychwanegol sy'n rhwystro'u gallu i ganolbwyntio a gwneud cynnydd.

I'r dysgwyr hynny nad ydynt yn siarad Cymraeg neu Saesneg fel eu hiaith gyntaf, mae hyfedredd cyfyngedig mewn Saesneg, gan gynnwys lefelau llythrennedd isel yn eu hiaith gyntaf, yn rhwystr sylweddol. Mae mudwyr a ffoaduriaid yn wynebu heriau ychwanegol yn gysylltiedig â gwahaniaethau diwylliannol, dod o hyd i wybodaeth am gyrsiau, addasu i systemau addysg anghyfarwydd, a rheoli materion personol eraill fel materion tai neu gyfreithiol.

Mae'r categori olaf o rwystrau a adroddwyd gan diwtoriaid a dysgwyr yn ymwneud â ble mae rhaglenni'n cael eu hamseru'n wael, er enghraifft os yw dosbarthiadau'n gwrthdaro ag amseroedd gollwng neu gasglu.

At ei gilydd, canfuom fod darparwyr yn meddu ar ddealltwriaeth dda o'r rhwystrau sy'n wynebu oedolion wrth gael mynediad at addysg, a'u bod wedi ceisio rhagweld a lleihau llawer o'r rhwystrau rhag cymryd rhan. Er enghraifft, roedd gan bron bob un o'r darparwyr amseroedd dechrau a gorffen i'w dosbarthiadau a oedd yn galluogi dysgwyr i ollwng a chasglu plant o'r ysgol, os oedd angen. Er enghraifft, mae dosbarthiadau llythrennedd a rhifedd oedolion Addysg Oedolion Cymru, yn gyffredinol, yn dechrau tua 09.30 ac yn gorffen cyn 15.00.

Roedd bron pob un o'r darparwyr yn cynnig rhai elfennau o'u dosbarthiadau medrau llythrennedd, rhifedd neu ddigidol oedolion ar-lein. Yn nodweddiadol, roedd hyn rhwng 5 ac 15% o gyfanswm eu darpariaeth llythrennedd, rhifedd neu ddigidol ac wedi'i fwriadu i ddarparu ar gyfer y dysgwyr hynny nad ydynt yn gallu mynychu dosbarthiadau rheolaidd wyneb yn wyneb, neu'n ffafrio'r dull dysgu hwn. Dywedodd darparwyr fod yn well gan ddysgwyr, ar y cyfan, ddysgu wyneb yn wyneb, a bod manteision cymdeithasol a lles dysgu yn gryfach pan fydd dysgwyr yn mynychu wyneb yn wyneb.

Roedd llawer o ddarparwyr yn cyflenwi gliniaduron neu galedwedd digidol arall i ddysgwyr, yn cynnwys donglau i alluogi mynediad at Wi-Fi symudol ar gyfer dysgwyr nad ydynt efallai'n gallu cael mynediad at y rhyngrwyd, fel arall.

Fodd bynnag, dywedodd darparwyr fod dwy her fawr. Yr her gyntaf yw sut i ymgysylltu â dysgwyr a oedd, am yr holl resymau a nodwyd uchod, yn ei chael yn gynyddol anodd ymgysylltu â dysgu. Dywedodd darparwyr fod dysgwyr, ar ôl pandemig COVID-19, yn dangos llai o ddiddordeb yn eu 'darpariaeth bara a menyn' o gyrsiau medrau llythrennedd, rhifedd a digidol a bod angen rhywbeth ar ddysgwyr i 'hoelio'u sylw' cyn iddynt fod yn gyfforddus i ymgymryd â'r mathau hyn o raglenni. Roedd llawer o ddarparwyr yn defnyddio ystod o ddarpariaeth ymgysylltu, wedi'i chyflwyno mewn amrywiaeth o ffyrdd, i gael sylw dysgwyr.

Un enghraifft o hyn yw darpariaeth dysgu teuluol. Trafodir hyn yn fanylach yn Thema 3 yr adroddiad hwn, ond yn ei hanfod, mae fel arfer yn ddysgu ffurfiol, mewn ysgol, sydd wedi'i anelu at rieni, neiniau a theidiau a gofalwyr sy'n oedolion ar gyfer plant yn yr ysgol. Caiff ei chyflwyno, yn nodweddiadol, fel 'dysgu gyda'ch plentyn', neu 'helpu'ch plentyn i ddysgu'. Gweler, er enghraifft, yr astudiaethau achos o bartneriaeth DOG Gogledd Ddwyrain Cymru (Estyn, 2022b) neu bartneriaeth DOG Merthyr Tudful (Estyn, 2020b). Gall dysgu teuluol fod yn fachyn effeithiol iawn ar gyfer dysgwyr sy'n oedolion a allai fod yn amharod i gofrestru ar gyfer cwrs wedi'i anelu'n uniongyrchol at oedolion â medrau llythrennedd gwael, ond pan gaiff ei gyflwyno fel cwrs i helpu'ch plentyn yn yr ysgol, daw'n llawer mwy derbyniol. Wedi iddynt ymgysylltu, dywedodd darparwyr fod rhieni ar y cyrsiau hyn yn aml yn fodlon cofrestru ar gyfer eu rhaglenni eraill i wella llythrennedd neu rifedd, neu'u bod yn gallu rhoi argymhellion i ffrindiau neu deulu a allai gymryd rhan. Mae'n ymddangos bod y broses hon i 'groesi'r trothwy' yn elfen allweddol o ymgysylltu o'r newydd ag oedolion a allai fod yn amharod i ymgysylltu â dysgu ffurfiol, fel arall. Fodd bynnag, ni chaiff rhaglenni dysgu teuluol eu hariannu'n uniongyrchol trwy grant dysgu cymunedol Medr, a cheir darpariaeth anghyson iawn ledled Cymru. Mewn rhai ardaloedd, er enghraifft Caerdydd neu Sir Benfro, ceir rhaglenni dysgu teuluol sefydledig. Mewn ardaloedd eraill, does dim darpariaeth o gwbl.

Roedd darparwyr yn gallu defnyddio cyllid Lluosi yn fwy hyblyg na'u grant dysgu cymunedol, ac roedd llawer ohonynt yn defnyddio cyllid Lluosi yn greadigol i gynnig ystod o ddarpariaeth math ymgysylltu, neu raglenni dysgu teuluol, yn gysylltiedig â rhifedd.

Mae'r ail brif her yn ymwneud â fforddiadwyedd lleoliadau addas ar gyfer y math hwn o ddysgu. Dywedodd dysgwyr fod dod o hyd i leoliadau lleol cyfarwydd yn fwy hygyrch, ac roedd hyn yn lleihau un o'r prif rwystrau rhag eu hymgysylltiad. Roedd bron pob un o ddarparwyr awdurdodau lleol yn defnyddio lleoliadau cymunedol sy'n bodoli eisoes, fel llyfrgelloedd neu leoliadau cymunedol amlbwrpas. Roedd colegau sy'n cyflwyno DOG ar gyfer awdurdodau lleol yn aml yn defnyddio hybiau dysgu canol tref neu gymunedol, sy'n fwy hygyrch i ddysgwyr. Dywedodd bron pob un o'r darparwyr – boed yn goleg neu'n awdurdod lleol – fod costau llogi neu gynnal yr ystâd ffisegol yn her sylweddol.

# Thema 2 – Addysgu a Dysgu Proffesiynol

## Asesiad cychwynnol a rôl WEST (Offeryn Sgiliau Hanfodol Cymru)


At ei gilydd, gwelsom fod tiwtoriaid yn defnyddio asesiadau cychwynnol yn effeithiol a bod y rhain yn darparu man cychwyn gwerthfawr ar gyfer deall galluoedd dysgwyr. Y term a ddefnyddir yn aml i ddisgrifio cryfderau unigolyn a'i feysydd i'w gwella ar draws ystod y medrau llythrennedd neu rifedd yw 'proffil pigfain' – gallai dysgwr fod yn gryf mewn rhai meysydd ond yn wannach mewn meysydd eraill. Mae asesiadau cychwynnol yn helpu nodi proffil pigfain dysgwr a llywio datblygiad cynlluniau dysgu unigol (CDUau). Roedd yr asesiadau hyn yn effeithiol ar gyfer pennu lefelau medrau cyffredinol a theilwra dulliau i anghenion unigol.

Roedd bron pob un o'r tiwtoriaid yn defnyddio asesiadau cychwynnol i bennu mannau cychwyn eu dysgwyr. Roedd tiwtoriaid yn aml yn defnyddio cyfuniad o offer asesu neu'n amrywio'u dulliau, yn dibynnu ar y dysgwr. Er enghraifft, dywedodd tiwtoriaid fod asesiadau ffurfiol yn gallu brawychu dysgwyr, yn enwedig y rhai nad ydynt yn hyderus neu'n gyfarwydd â phlatfformau digidol.

I rai dysgwyr, gall asesiadau hirfaith neu gymhleth achosi iddynt ddiflasu neu ymddieithrio â'r broses asesu, gan danseilio'u cywirdeb. I helpu goresgyn hyn, roedd tiwtoriaid yn defnyddio ystod o ddulliau atodol hefyd, fel tasgau ysgrifennu rhydd, ymarferion ymarferol, neu sgyrsiau wedi'u harwain gan diwtor. Mae'r dulliau hyn yn helpu lleihau gorbryder, meithrin cydberthynas, a darparu dealltwriaeth gynnil o anghenion dysgwyr.

Yn ein harolwg ar-lein o diwtoriaid, gofynnom sut maent yn asesu mannau cychwyn dysgwyr. O'r rhai a ymatebodd i'r arolwg (114 o ymatebwyr), rhoddodd 106 o diwtoriaid wybodaeth am yr offer yr oeddent yn ei ddefnyddio ar gyfer asesiad cychwynnol dysgwyr.

**Siart 1: Ymatebion i "Sut ydych chi'n asesu mannau cychwyn dysgwyr ar gyfer pan fyddant yn dechrau yn eich darpariaeth?": Dewiswch bob opsiwn sy'n berthnasol.**




*Yn seiliedig ar ymatebion gan 106 o diwtoriaid*

Mae Siart 1, uchod, yn dangos bod tua hanner yr ymatebwyr yn defnyddio offer asesu cychwynnol ar-lein (WEST, 2025) Pecyn Cymorth Sgiliau Hanfodol Cymru (WEST). Roedd cyfran debyg yn defnyddio'u gweithgaredd asesiad cychwynnol strwythuredig eu hunain, fel tasg ysgrifenedig neu rifedd fer. Roedd tua chwarter ohonynt yn defnyddio hunanasesiadau dysgwyr, lle roedd dysgwyr yn graddio'u gallu eu hunain. Roedd 14% o diwtoriaid yn defnyddio asesiad cychwynnol ar bapur, yr oedd rhai ohonynt yn dyddio i adnoddau a gynhyrchwyd ar gyfer yr Asiantaeth Sgiliau Sylfaenol ar ddechrau'r 2000oedd. Dywedodd tua 5% o ymatebwyr eu bod yn defnyddio offeryn asesu cychwynnol TG BKSB.

Dywedodd tiwtoriaid fod effeithiolrwydd offer asesu cychwynnol yn llai ymhlith dysgwyr ag anghenion cymorth ychwanegol[3] (e.e. dyslecsia ar gyfer dysgwyr â chyflyrau niwroamrywiol).

Er bod yr offer hwn yn rhoi syniad cyffredinol am lefelau medrau, canfu tiwtoriaid nad oedd ganddynt y dyfnder roedd ei angen i asesu galluoedd penodol yn gywir, fel ysgrifennu a siarad. Gall hyn arwain at oramcangyfrif neu danamcangyfrif galluoedd dysgwyr.

[3] Gweler yr Eirfa ar gyfer nodiadau ar 'anghenion cymorth ychwanegol'.

Roedd tua chwarter o diwtoriaid yn defnyddio hunanasesiad dysgwyr yn rhan o'u hasesiad cychwynnol. Fodd bynnag, dywedon nhw, er bod y rhain yn fuddiol i ryw raddau, nad ydynt bob amser yn adlewyrchu gwir lefelau medrau oherwydd camddehongli neu ddiffyg hyder dysgwyr.

Dywedodd tiwtoriaid fod WEST yn offeryn defnyddiol, ar y cyfan, ond bod iddo nifer o gyfyngiadau oedd yn lleihau ei effeithiolrwydd. Nid yw'n asesu medrau cyfathrebu yn gynhwysfawr, fel ysgrifennu neu siarad, ac mae'n dibynnu'n helaeth ar hyfedredd digidol, sy'n golygu bod dysgwyr â medrau TG cyfyngedig dan anfantais. Yn ychwanegol, disgrifiwyd yn aml fod y rhyngwyneb a'r broses yn anhygyrch neu'n rhy llafurus, gan arwain at ymddieithrio ymhlith rhai dysgwyr.

## Sut mae tiwtoriaid yn cynllunio'u rhaglenni i ddiwallu anghenion dysgwyr

Canfuom fod yr addysgu'n effeithiol yn y rhan fwyaf o'n harsylwadau ar gyfer yr adolygiad thematig hwn. Mae hyn yn gyson â'n canfyddiadau o arolygiadau DOG. Un o'r cwestiynau a ofynnom i diwtoriaid yn ein hymweliadau â sesiynau oedd, 'Pa ddulliau addysgu ydych chi'n eu defnyddio wrth addysgu medrau llythrennedd, rhifedd a digidol i oedolion?' Yn y rhan fwyaf o achosion, ymateb y tiwtor oedd bod eu dull yn dibynnu i raddau helaeth ar yr arddull ddysgu yr oedd yr oedolyn yn ei ffafrio ac ar broffil pigfain dysgwr. Dywedodd un tiwtor yn gryno: 'personoli **yw'r** dull addysgu mewn dysgu oedolion yn y gymuned'.

Mae personoli dysgu – teilwra'r arddull a'r dull cyflwyno i ddiwallu anghenion dysgwr unigol – yn arferol mewn sesiynau medrau llythrennedd, rhifedd a digidol oedolion. Isod, rydym yn amlinellu'r ffyrdd yr oedd tiwtoriaid yn addasu eu dulliau i ddiwallu anghenion dysgwyr unigol.

Un o gryfderau allweddol tiwtoriaid yn y sector yw'r graddau y maent yn adnabod eu dysgwyr. Mae bron pob un o'r tiwtoriaid yn dod i adnabod eu dysgwyr yn gyflym ac yn treulio amser yn datblygu ymddiriedaeth a chydberthynas ar y ddwy ochr. Roeddent fel arfer yn gwybod am hanes blaenorol eu dysgwyr, eu cymhelliant dros ddychwelyd i ddysgu, eu dyheadau a'u cryfderau unigol a'u meysydd i'w datblygu mewn medrau. Mae dosbarthiadau medrau llythrennedd, rhifedd a digidol mewn DOG yn nodweddiadol yn fach (llai na 10 dysgwr) ac mae tiwtoriaid yn cael amser a chyfle i addasu eu cyflwyno yn unol ag anghenion unigol dysgwyr. Gwelom fod y rhan fwyaf o diwtoriaid yn rhoi cymorth un i un effeithiol iawn i ddysgwyr wrth iddynt weithio, ac roeddent yn ei ddefnyddio i deilwra'u cyflwyno a rhoi adborth a oedd yn fuddiol i ddysgwyr o ran gwybod sut i wella.

Mae gan oedolion bron bob amser brofiad blaenorol o ddysgu llythrennedd neu rifedd, ac wedi defnyddio rhywfaint o dechnoleg ddigidol, o leiaf. Mae oedolion sy'n gwella'u llythrennedd neu'u rhifedd yn nodweddiadol yn dweud bod rhywbeth wedi tarfu ar eu dysgu tra roeddent yn yr ysgol neu'u bod yn syml 'ddim wedi deall' y tro cyntaf. Serch hynny, mae ganddynt fel arfer strategaethau llythrennedd neu rifedd, sy'n cyfuno'r hyn a wnaethant yn yr ysgol gyda phrofiad a gawsant yn oedolyn. Roedd y tiwtoriaid mwyaf

effeithiol a arsylwom yn adeiladu ar y strategaethau sydd gan ddysgwyr eisoes, hyd yn oed os nad y strategaethau hynny efallai oedd y dull roedd y tiwtor ei hun yn ei ffafrio.

Yn y rhan fwyaf o'r dosbarthiadau a arsylwom, roedd gan ddysgwyr gynllun dysgu unigol (CDU). Roedd y rhain yn amrywio o ran arddull a strwythur. Yn yr achosion mwyaf effeithiol, roeddent yn ddogfennau gwaith a oedd yn cael eu 'perchnogi' ar y cyd gan y tiwtor a'r dysgwr, ac yn amlinellu nodau dysgu tymor byr a thymor canolig y dysgwr yn glir.

Roedd y rhan fwyaf o ddysgwyr y siaradom â nhw yn cyfaddef nad ydynt yn mwynhau cwblhau eu CDUau, ond serch hynny'n cydnabod eu bod yn offeryn defnyddiol i'w cadw ar y trywydd iawn a'u helpu i ganolbwyntio ar eu nodau dysgu presennol.

Pan roeddent yn lleiaf effeithiol, roedd CDUau yn nodi'r rhestr o unedau achrededig yr oedd y dysgwr yn eu dilyn ond ddim yn rhoi llawer o gydnabyddiaeth i'r camau dysgu gwirioneddol a oedd yn ofynnol i'w cyflawni. Yn yr achosion hyn, daeth cwblhau CDU yn ymarfer biwrocrataidd ac nid oedd yn ychwanegu llawer o werth at ddysgu.

Pan roedd tiwtoriaid yn defnyddio CDUau yn fwyaf effeithiol, roedd y CDU wedi cael ei lunio ar y cyd â'r dysgwr. Roeddent yn defnyddio gwybodaeth o ddeilliannau asesiadau cychwynnol a diagnostig, unrhyw gymorth neu anghenion cymorth ychwanegol a allai fod gan ddysgwr, ac yn ystyried cymhelliant y dysgwr a'i nodau ar gyfer dysgu. Roedd tiwtoriaid a dysgwyr yn cyfeirio at y CDU fel dogfen waith, ac roedd y ddogfen yn cael ei defnyddio i helpu'r tiwtor i strwythuro dysgu fel sy'n briodol ar gyfer pob dysgwr.

Roedd y rhan fwyaf o diwtoriaid yn dangos hyblygrwydd a gallu i addasu. Roeddent yn aml yn addasu cynlluniau gwersi i ymateb i heriau annisgwyl, cynnydd unigol neu ffafriaethau dysgwyr. Roedd hyn yn cynnwys addasu dulliau addysgu, symleiddio neu ymestyn tasgau, a chynnig dewisiadau i ddysgwyr o ran sut maent yn ymgysylltu â gweithgareddau. Yn aml, roedd tiwtoriaid yn teilwra cynnwys y sesiwn i fodloni anghenion neu ddiddordebau unigol dysgwyr. Er enghraifft, mewn sesiwn ddigidol wedi'i hanelu at oedolion hŷn ar ddefnyddio'u ffonau clyfar, roedd y tiwtor yn strwythuro'r sesiwn o amgylch cais y dysgwyr i ddysgu am sut i osod apiau penodol, ac addasu'r nodweddion diogelwch ar eu ffonau. Mewn sesiwn ddigidol wahanol, roedd y tiwtor yn gweithio gyda dysgwr i gymhwyso cyfrifiadau ariannol gan ddefnyddio taenlen i gefnogi rôl y dysgwr fel ysgrifennydd clwb cymunedol. Roedd dysgwyr yn gwerthfawrogi parodrwydd tiwtoriaid yn fawr i addasu eu haddysgu i weddu i'w diddordebau ac yn cymhwyso'u dysgu i'w bywydau eu hunain.

Roedd llawer o diwtoriaid yn cynorthwyo dysgwyr yr oedd angen cymorth unigol sylweddol arnynt neu'r rhai ag anghenion cymorth ychwanegol, yn dda. Roedd tiwtoriaid yn defnyddio amrywiaeth o offer, fel adnoddau sy'n addas ar gyfer dyslecsia, ffontiau mwy, papur lliw neu dechnoleg gynorthwyol, i gynorthwyo dysgwyr. Mae cefnogi anghenion cymorth ychwanegol dysgwyr wedi bod yn ffocws dysgu proffesiynol ar draws y sector. Roedd tiwtoriaid yn nodi'n aml fod angen parhau i ddatblygu eu gallu i gynorthwyo dysgwyr ag anghenion cymorth ychwanegol fel blaenoriaeth ar gyfer eu datblygiad proffesiynol eu hunain.

**Ciplun: llythrennedd trwy lenyddiaeth, gyda grŵp o ddysgwyr niwroamrywiol yn Sir Gaerfyrddin**

Mae grŵp bach o diwtoriaid wedi bod yn datblygu dulliau ar gyfer eu grŵp o ddysgwyr niwroamrywiol. Mewn dosbarth medrau hanfodol lefel gymysg, mae gan ddysgwyr amrywiaeth o anghenion cymorth, er enghraifft ADHD, dyslecsia, dyspracsia neu anhawster yn canolbwyntio oherwydd poen. Roedd y tiwtor wedi rhannu gwybodaeth am niwroamrywiaeth a gwahanol arddulliau dysgu gyda dysgwyr ar ddechrau'r cwrs. Roedd cyfres o bosteri ar y wal yn esbonio niwroamrywiaeth, gyda chodau QR yn cyfeirio dysgwyr at fwy o wybodaeth. Dywedodd y dysgwyr fod deall niwroamrywiaeth yn eu helpu i ddeall eu hanawsterau â dysgu yn y gorffennol ac i fod yn fwy goddefgar o'u hanawsterau eu hunain, ac anawsterau pobl eraill.

Roedd dysgwyr yn cael eu hannog i awgrymu'r testunau yr hoffent eu hastudio i wella'u medrau llythrennedd, gan gynnwys llenyddiaeth a barddoniaeth. Roedd y tiwtor yn defnyddio dull 'iaith trwy lenyddiaeth' i ddod ag egwyddorion sylfaenol strwythur brawddeg a gramadeg yn fyw. Roedd gan un dysgwr ddiddordeb yn y tywydd. Trwy ddefnyddio fideo yn dangos y tymhorau'n newid yng nghefn gwlad, wedi'i blethu â datganiadau ffeithiol ar y tywydd a phytiau o ysgrifennu llenyddol, anogodd y tiwtor y dysgwyr i ysgrifennu'n ddychmygus i adnabod a deall cysyniadau gramadeg sylfaenol fel paragraffau ac atalnodi, a defnyddio geirfa gyfoethog. Fel grŵp, aeth y dysgwyr am dro i'r dref ac mewn parciau a thrafod yr hyn roeddent wedi'i weld.

Roedd natur amlsynhwyraidd y gwaith yn helpu dysgwyr i gofio'r pwyntiau llythrennedd a sut caiff y rhain eu trosglwyddo i gyd-destunau eraill, fel ysgrifennu ffeithiol neu ddelio â dogfennau swyddogol. Roedd y dysgwyr wedi magu hyder a hunanymwybyddiaeth, ac wedi datblygu diddordeb newydd mewn darllen, llenyddiaeth a barddoniaeth.

Ar y cyfan, gwelom fod yr addysgu'n effeithiol yn y rhan fwyaf o'r sesiynau a arsylwom. Yn y sesiynau prin lle roedd yr addysgu'n llai effeithiol, roedd dau faes cyffredinol i'w gwella. Y maes cyntaf oedd ble nad oedd tiwtoriaid yn adeiladu'n effeithiol ar wybodaeth a phrofiad blaenorol y dysgwr. Er enghraifft, roedd dysgwr wedi defnyddio dull dilys ar gyfer lluosi a oedd yn effeithiol iddo, ond ceisiodd y tiwtor ddefnyddio dull gwahanol – efallai'r dull roedd y tiwtor yn ei ffafrio – a allai fod wedi bod yn effeithiol hefyd, ond a oedd yn gofyn i'r dysgwr 'ddad-ddysgu' ei ddull gwreiddiol, gan achosi dryswch. Pan drafodom hyn gyda thiwtoriaid, daeth yn amlwg mewn ychydig o achosion nad oedd tiwtoriaid yn meddu ar ddealltwriaeth ddigon eang o ystod y dulliau y gellid eu defnyddio i gwblhau gweithrediadau mathemategol, er enghraifft.

Yr ail oedd ble roedd tiwtoriaid yn dibynnu'n ormodol ar lyfrau gwaith fel eu prif adnodd ar gyfer addysgu. Mae llyfrau gwaith yn helpu strwythuro dysgu, yn enwedig mewn rhaglenni sydd â chofrestriad treigl, a lle gallai cryfderau dysgwyr mewn dosbarth, a'u meysydd i'w gwella, fod yn wahanol iawn. Fodd bynnag, panr oeddent yn cael eu gor-ddefnyddio, nid oedd tiwtoriaid yn cynnwys digon o amrywiaeth yn eu haddysgu, ac roedd dysgwyr yn diflasu neu'n colli cymhelliant.

## Barn tiwtoriaid ar effaith darpariaeth llythrennedd, rhifedd a digidol

Yn rhan o'n harolwg ar-lein o diwtoriaid ar gyfer yr adroddiad thematig hwn, gofynnom i diwtoriaid ddweud wrthym am y llwyddiannau a'r heriau wrth addysgu'r math hwn o ddarpariaeth. Trwy gydol yr adroddiad hwn, rydym wedi myfyrio ar yr heriau a nododd tiwtoriaid, yn enwedig o ran y rhwystrau sy'n wynebu dysgwyr a'r camau y mae tiwtoriaid a phartneriaethau yn eu cymryd i'w goresgyn.

Roedd disgrifiadau'r tiwtoriaid eu hunain o'u llwyddiannau yn aml yn cael eu geirio o ran effaith dysgu ar yr oedolion y maent yn eu haddysgu; nid yn unig o ran cyflawniad academaidd ond hefyd o ran magu hyder, lles gwell, a chyfleoedd newid bywyd i ddysgwyr.

Roedd magu hyder dysgwyr yn thema gyffredin. Disgrifiodd tiwtoriaid y modd yr oedd dysgwyr wedi goresgyn eu hofnau a'u gorbryderon am addysg, gan arwain at hunan-barch a chymhelliant cynyddol. Er enghraifft, roeddent yn disgrifio dysgwyr a oedd bellach yn gallu helpu eu plant â gwaith cartref, defnyddio bancio ar-lein, neu'n syml yn teimlo'u bod yn fwy abl yn eu bywydau bob dydd, gan gael effaith ymledol gadarnhaol ar eu teuluoedd a'u cymunedau. Ymatebodd y tiwtoriaid hyn:

> *Yn bersonol, bydd gwylio unigolion nad ydyn nhw wedi bod i'r ysgol yn disgleirio â hyder pan maen nhw wedi darllen neu ysgrifennu rhywbeth y byddan nhw'n falch ohono bob amser yn llwyddiant i mi. Pan fyddan nhw'n ennill eu cymhwyster cyntaf erioed ar ôl sibrwd ar eu diwrnod cyntaf nad ydyn nhw'n gallu darllen neu ysgrifennu yn llwyddiant enfawr, yn fy marn i.*
>
> *Y dysgwyr sy'n ei 'ddeall' yn sydyn, sy'n cael tystysgrif am y tro cyntaf erioed, sy'n gwrthod rhoi'r gorau iddi, sy'n crio pan maen nhw'n ennill y cymhwyster lefel 2 hwnnw sy'n golygu eu bod yn gallu hyfforddi ar gyfer swydd eu breuddwydion, sydd â rheswm i adael y tŷ, nad oedden nhw'n gallu darllen ac yn gallu erbyn hyn, sydd bellach yn helpu eu plant, sy'n gallu mynd i'r coleg…*
>
> *Os yw pobl yn cael eu galluogi i fynegi eu hunain â hyder mewn un maes, mae hyn yn arwain yn anochel at fwy o hyder mewn meysydd eraill – felly, bydd cynnydd mewn unrhyw un o'r tri medr sylfaenol yn creu pont cyfle at y ddau arall.*
>
> *Gall ein llwyddiannau gael eu colli mewn data cymhleth, ond mae dysgwyr sydd wedi newid eu bywydau trwy wella'u medrau hanfodol yn ganolog iddo: y rhai sydd wedi ymrwymo i weithio trwy'r lefelau ac wedyn symud ymlaen i gyrsiau Mynediad a chyrsiau gradd; y rhai sydd wedi dod yn rhieni gwell i gefnogi teithiau addysgol eu plant a'r rhai sy'n magu'r hyder a'r dyheadau i dorri'r cylchoedd tlodi. Ni ellir mesur llwyddiannau mewn medrau hanfodol bob amser, ond mae dysgwyr sy'n gwella'u medrau, hyd yn oed mewn ffyrdd bach, yn gwella'u rhagolygon bywyd, eu hiechyd a'u lles am weddill eu bywydau.*

Y tu hwnt i lwyddiant academaidd, amlygodd tiwtoriaid y manteision cymdeithasol, gan

gynnwys goresgyn unigrwydd, meithrin cyfeillgarwch, a chreu cymuned gefnogol o fewn yr ystafell ddosbarth:

> *Rwy'n meddwl y bydd dod â grwpiau o bobl ynghyd na fydden nhw o reidrwydd yn ymgysylltu â'i gilydd yn eu bywydau arferol o ddydd i ddydd, wedyn gwylio'r unigolion hynny'n magu hyder ac yn teimlo'u bod nhw wedi cyflawni rhywbeth fel tîm, bob amser yn teimlo fel llwyddiant.*

> *Mae llwyddiannau'n golygu gweld y dysgwyr yn mwynhau'r wers, yn cymysgu â phobl eraill ac yn magu hyder tra'n symud ymlaen â'u medrau dysgu unigol.*

> *Ailymgysylltu dysgwyr â phobl eraill – y deilliannau cymdeithasol a lles gwell. Mae hyn yn arwain at ddilyniant mwy tebygol ymlaen at astudio ymhellach, ac ymgysylltu'n well â dysgu.*

Pwysleisiodd tiwtoriaid bwysigrwydd teilwra gwersi i anghenion a diddordebau unigol, sy'n helpu dysgwyr i deimlo'u bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u cefnogi. Dywedwyd bod defnyddio cynlluniau dysgu unigol a gweithgareddau bywyd go iawn, ymarferol, yn ffactorau allweddol wrth gynnal ymgysylltiad dysgwyr a sicrhau cynnydd.

Yn aml, roedd tiwtoriaid yn cyfeirio at y wobr broffesiynol o weld twf a llwyddiant dysgwyr neu'r boddhad personol y byddant yn ei gael o wybod eu bod wedi gwneud gwahaniaeth, p'un a oedd hynny trwy helpu dysgwr i ennill ei gymhwyster cyntaf neu ddim ond magu hyder gwell:

> *Mae'n rhoi pleser mawr i mi ac ymdeimlad fod popeth yn werth chweil pan mae fy nysgwyr yn llwyddo yn eu harholiadau, ac maen nhw mor falch o hynny. Rydw i wedi gallu rhoi rhywfaint o'm medrau a'm gwybodaeth i eraill. Dyna'r rheswm y des i'n athro.*

> *Pobl yn sylweddoli eu bod yn gallu dysgu unrhyw beth sydd ei eisiau arnyn nhw gydag ychydig o fedrau estynedig a llwyth o hyder.*

## Dysgu proffesiynol

O fis Mai 2024, mae wedi bod yn ofynnol i diwtoriaid ('ymarferwyr', o ddefnyddio terminoleg y ddeddfwriaeth) sy'n cyflwyno darpariaeth dysgu oedolion yn y gymuned a ariennir gan Medr, gofrestru gyda Chyngor y Gweithlu Addysg ac ennill isafswm cymwysterau proffesiynol (CGA, 2025). Yn ystod ein hymweliadau, roedd bron pob un o'r tiwtoriaid yn cydnabod gwerth hyn wrth barhau i broffesiynoli'r gweithlu dysgu oedolion yn y gymuned. Fodd bynnag, codwyd pryderon ganddynt y gallai'r gorbenion ychwanegol i dalu am y ffi gofrestru flynyddol (£45 ar hyn o bryd) mewn gweithlu sy'n cyflogi tiwtoriaid ar gontractau rhan-amser ffracsiynol neu yn ôl yr awr, atal tiwtoriaid rhag gweithio yn y sector. Mewn o leiaf un darparwr, roedd y cyflogwr yn talu'r ffi gofrestru flynyddol, ond, ar y cyfan, roedd tiwtoriaid yn talu'r ffi, trwy ostyngiad blynyddol o'u cyflog unigol.

Codwyd pryderon gan diwtoriaid a rheolwyr hefyd am restr y cymwysterau gorfodol cydnabyddedig (CGA, 2024a). Roedd yn cynnwys nifer o gymwysterau nad oeddent yn ymddangos yn berthnasol i'r sector ac nid oeddent yn canolbwyntio'n ddigonol ar ddatblygu a dangos medrau addysgu priodol mewn cyd-destunau DOG.

Yn ddiweddar, mae CGA wedi dechrau casglu data am y gweithlu addysgu DOG. Nid yw'r data o'r flwyddyn gasglu gyntaf (2024) wedi cael ei gyhoeddi eto (CGA, 2024b). Mae tiwtoriaid mewn dysgu oedolion yn y gymuned yn aml yn disgrifio llwybrau gyrfa i'r proffesiwn nad ydynt yn rhai traddodiadol. Maent yn aml wedi cael gyrfaoedd eraill cyn dechrau addysgu yn y sector DOG: efallai eu bod wedi gweithio yn y gymuned fel gwirfoddolwyr, wedi cael rolau proffesiynol eraill, neu wedi addysgu mewn sectorau eraill (fel athrawon cynradd neu uwchradd, er enghraifft) ac wedi ymddeol yn gynnar o'r swyddi hynny, neu wedi newid sectorau. Gallent fod wedi gweithio mewn rolau dysgu yn y gwaith neu rolau'n canolbwyntio ar gyflogaeth, ac wedi trosglwyddo i addysgu oedolion wrth i'w diddordeb yn y sector dyfu.

Roedd tiwtoriaid yn y sector yn dangos ymrwymiad cryf i'w dysgwyr. Maent yn adnabod eu dysgwyr yn dda, ac yn teilwra'u dulliau addysgu yn unol â hynny. Mae maint dosbarthiadau mewn sesiynau medrau llythrennedd, rhifedd neu ddigidol yn fach, yn nodweddiadol – sy'n galluogi tiwtoriaid i dreulio amser gyda dysgwyr ac yn rhoi iddynt y sylw unigol sydd ei angen arnynt.

Fodd bynnag, nid yw tiwtoriaid yn y sector hwn bob amser yn arbenigwyr pwnc. Er enghraifft, efallai nad yw tiwtoriaid rhifedd yn meddu ar wybodaeth bynciol gref mewn mathemateg. Yn yr astudiaeth hon, gwelom fod addysgu yn gadarn, ar y cyfan, ond yn yr achosion prin lle roedd meysydd i'w gwella, roedd hyn am nad oedd tiwtoriaid yn ymwybodol o ystod bosibl y strategaethau addysgu a allai fod yn ddefnyddiol ar gyfer addysgu dysgwr sy'n cael trafferth â lluosi, delio â degolion neu ddarllen geiriau cymhleth gan ddefnyddio dulliau seinegol, er enghraifft. Dywedodd tiwtoriaid eu bod wedi ymgymryd â dysgu proffesiynol i ddyfnhau eu gwybodaeth a'u haddysgu yn benodol i bwnc, ond dywedodd llawer ohonynt nad oedd digon o gyfleoedd i ymgymryd â dysgu achrededig manwl a oedd yn canolbwyntio ar fedrau addysgu yn benodol i bwnc sy'n berthnasol i addysgu medrau llythrennedd, rhifedd neu ddigidol oedolion.

Yn ein harolwg ar-lein ar gyfer staff addysgu DOG, gofynnom a oedd ymatebwyr wedi cymryd rhan mewn dysgu proffesiynol yn benodol am addysgu medrau llythrennedd, rhifedd neu ddigidol o fewn y 12 mis diwethaf. Dim ond tua hanner o'r 107 o ymatebwyr i'r cwestiwn a ddywedodd eu bod wedi gwneud hynny. Mewn sgyrsiau gyda thiwtoriaid yn ystod ein hymweliadau, canfuom fod cyfran y tiwtoriaid a ddywedodd eu bod wedi cymryd rhan mewn dysgu proffesiynol diweddar ychydig yn uwch. Fodd bynnag, mae hyn, serch hynny, yn ymateb pryderus gan ei fod yn dangos nad yw tiwtoriaid yn y sector yn gyffredinol yn cymryd rhan mewn dysgu proffesiynol yn ymwneud â'u harfer addysgu craidd.

Yn yr arolwg, gofynnom i ymatebwyr ddweud mwy wrthym ni am y dysgu proffesiynol yr oeddent wedi'i wneud a'i ddefnyddioldeb i'w harfer. Roedd 52 o ymatebion i'r cwestiwn hwn.

O’r rhai a grybwyllodd ddysgu proffesiynol achrededig i ddatblygu addysgeg, dyfynnwyd Tystysgrif lefel 3 Agored Cymru ar gyfer Ymarferwyr Sgiliau Hanfodol (Agored Cymru, 2025) fel enghraifft ddefnyddiol, gyda ffocws buddiol ar addysgu yn benodol i bwnc. Fodd bynnag, ychydig o ganolfannau yn unig oedd yn cynnig y cymhwyster ar hyn o bryd.

**Ciplun ar ddysgu proffesiynol achrededig lefel 3**

Mae Dysgu Bro – sy’n aelod o bartneriaeth DOG Ceredigion – yn cynnig Tystysgrif lefel 3 ar gyfer Ymarferwyr Sgiliau Hanfodol fel darpariaeth dysgu o bell i diwtoriaid DOG ledled Cymru. Mae hyd at 20 tiwtor yn cynnal y cwrs yn y darparwr bob blwyddyn. Mae gan y cwrs bedair uned, sy’n cynnwys: oedolion a phobl ifanc fel dysgwyr medrau hanfodol, asesu medrau dysgwyr, sut i gynllunio rhaglen ddysgu ac archwilio strategaethau ar gyfer mynd i’r afael ag anghenion dysgwyr.

O’r arolwg ar-lein, dywedodd tiwtoriaid mai’r canlynol yw ffocws eu dysgu proffesiynol diweddar:

- Hyfforddiant mewn llythrennedd a rhifedd. Yn ogystal â’r cymwysterau Ymarferwyr Sgiliau Hanfodol lefel 3 a grybwyllir uchod, dywedodd tiwtoriaid eu bod wedi mynychu amrywiaeth o gyrsiau yn canolbwyntio ar addysgu llythrennedd a rhifedd. Roedd y rhain yn cynnwys digwyddiadau neu sesiynau safoni mewnol a dyfarnu yn canolbwyntio ar yr asesiad ar gyfer cymwysterau Sgiliau Hanfodol Cymru.
- Medrau digidol a thechnolegau datblygol. Roedd ystod o hyfforddiant yn gysylltiedig â medrau digidol, yn cynnwys cymhwyso deallusrwydd artiffisial (AI) ac offer realiti rhithwir yn ymarferol. Roedd y sesiynau hyn yn helpu tiwtoriaid i ddatblygu adnoddau addysgu, ymgorffori technolegau newydd mewn gwersi, ac archwilio’r potensial ar gyfer gwella ymgysylltiad dysgwyr. Roedd hyfforddiant hefyd yn cynnwys gweithdai ar ddefnyddio offer digidol ar gyfer asesu a defnyddio amgylcheddau dysgu rhithwir.
- Cydweithio a rhannu digwyddiadau ymarfer. Roedd tiwtoriaid yn gwerthfawrogi cyfleoedd ar gyfer cydweithio trwy gyfarfodydd tîm, sesiynau safoni, a chynadleddau tiwtoriaid. Dywedodd tiwtoriaid fod diwrnodau hyfforddi ar draws canolfannau yn hynod effeithiol o ran lleihau ynysu ar gyfer tiwtoriaid a allai fod yn gweithio’n annibynnol mewn lleoliadau cymunedol am lawer o’r amser. Roeddent yn teimlo’u bod yn elwa ar rannu arfer a rhwydweithio â thiwtoriaid eraill.
- Mae hyfforddiant ar gefnogi dysgwyr ag anghenion cymorth ychwanegol a rhwystrau eraill rhag addysg wedi cael croeso da. Mae enghreifftiau’n cynnwys ymwybyddiaeth o awtistiaeth ac arfer sy’n ystyriol o drawma. Dywedodd tiwtoriaid fod y sesiynau hyn yn gwella’u hyder wrth fynd i’r afael ag anghenion dysgwyr, ac wedi helpu meithrin amgylcheddau dysgu mwy cynhwysol.
- Addysgeg ddwyieithog. Dywedodd tiwtoriaid eu bod wedi mynychu ystod o hyfforddiant i ddatblygu eu gallu i addysgu’n ddwyieithog. Dywedodd ychydig o diwtoriaid a gyflogir gan golegau addysg bellach eu bod yn cael hyfforddiant buddiol gan Sgiliaith i ddatblygu eu medrau Cymraeg personol a’u

hymwybyddiaeth o addysgegau dwyieithog. (Gweler Estyn, 2025c, am fwy o drafodaeth am hyfforddiant Cymraeg ar gyfer athrawon ôl-16.)

- Datblygiad proffesiynol generig a diweddaru. Dywedodd y rhan fwyaf o diwtoriaid a ymatebodd eu bod wedi cymryd rhan mewn hyfforddiant generig gan eu darparwr i gefnogi eu rôl ehangach, er enghraifft mewn diogelu ac Atal, cydraddoldeb ac amrywiaeth, neu iechyd a diogelwch.

Yn ystod ein hymweliadau â darparwyr ac o'r ymatebion i'n harolwg ar-lein, roedd y tiwtoriaid hynny sydd wedi ymgymryd â dysgu proffesiynol diweddar yn dangos dulliau myfyriol ac yn gweld bod eu hyfforddiant yn fuddiol. Soniodd llawer ohonynt am enghreifftiau o'r modd y maent wedi cymhwyso dysgu proffesiynol yn eu harfer, yn cynorthwyo dysgwyr ag anghenion cymorth ychwanegol, cynyddu eu defnydd o addysgeg ddwyieithog neu ymgorffori offer rhyngweithiol i ymestyn ymgysylltiad dysgwyr.

# Thema 3 – Darpariaeth a chynnydd

## Data cyhoeddedig

Mae partneriaethau'n cofnodi eu cyflwyno dysgu a ariennir gan ddefnyddio system ddata Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru (CDGOC). Adeg paratoi'r adroddiad hwn, y data cyhoeddedig swyddogol diweddaraf ar gyfer darpariaeth DOG a ariennir gan Lywodraeth Cymru / Medr oedd ar gyfer blwyddyn academaidd 2022-2023. Bu oedi wrth gyhoeddi data 2023-2024 oherwydd materion ansawdd data (Medr, 2025b).

Ar hyn o bryd, nid oes methodoleg safonol, gyson i nodi cyrsiau neu weithgareddau dysgu fel 'medrau llythrennedd', 'medrau rhifedd' neu 'fedrau digidol'. O ganlyniad, mae math a maint y ddarpariaeth a ddangoswyd yn amrywio yn dibynnu ar y fethodoleg a ddefnyddir yn y dadansoddiad, ac mae dadansoddi'n dibynnu, i ryw raddau, ar gategoreiddio'r ddarpariaeth â llaw, yn seiliedig ar deitl y cwrs. Mae hyn yn rhwystro'r gallu i ddeall y ddarpariaeth a gynigir ar lefel system neu wneud cymariaethau rhwng partneriaethau a darparwyr. At ei gilydd, mae gwerth cyfyngedig i ddulliau presennol o gasglu a dadansoddi data trwy CDGOC o ran darparu mewnwelediadau defnyddiol i batrymau ac effeithiolrwydd y ddarpariaeth.

### Adroddiad Canlyniadau Dysgwyr

Mae data perfformiad ar gyfer DOG ar gael yn gyhoeddus trwy'r Adroddiad Canlyniadau Dysgwyr (Llywodraeth Cymru, 2024b; Medr, 2025b). Mae'r Adroddiad Canlyniadau Dysgwyr yn dangos, ar gyfer pob partneriaeth, ar gyfer pob lefel a math eang o ddarpariaeth, y gyfradd gwblhau (o'r holl weithgareddau dysgu a ddechreuodd, faint a gwblhawyd), cyfradd cyrhaeddiad (o'r holl weithgareddau dysgu a gwblhawyd, faint ohonynt arweiniodd at y dysgwr yn ennill y cymhwyster yr oedd yn anelu amdano), a'r gyfradd lwyddo (cyfuno cwblhau a chyrhaeddiad mewn un mesur cyffredinol: o'r holl weithgareddau dysgu a ddechreuwyd, faint ohonynt a gafodd eu cwblhau a'u cyflawni'n llwyddiannus).

Mae'r Adroddiad Canlyniadau Dysgwyr ar gyfer 2022-2023 yn dangos, yn gyffredinol, bod dysgwyr sy'n dilyn rhaglenni DOG yn llwyddiannus yn cwblhau eu cyrsiau a'u cymwysterau ar gyfradd o 84%, sydd ychydig yn uwch na'r gyfradd ar gyfer 2021-2022, sef 81%.

### LLWR-Inform

Defnyddiom borthol diogel ar y we Llywodraeth Cymru, 'LLWR-Inform' i weld data cryno partneriaethau, gan gynnwys ystod y cyrsiau llythrennedd, rhifedd a digidol oedolion yr oedd partneriaethau wedi eu dychwelyd yn eu data CDGOC. Mae'r system hon yn defnyddio'r un data ategol â'r Adroddiad Canlyniadau Dysgwyr ond yn rhoi manylion mwy mân, ac mae ar gael i ddefnyddwyr cyfyngedig fel y rheolwyr partneriaeth, swyddogion Medr neu Estyn.

Dangosodd data ar LLWR-Inform fod partneriaethau wedi cofnodi 8,691 o weithgareddau dysgu ar gyfer y maes pwnc 'Addysg Sylfaenol i Oedolion' yn 2022-2023, sy'n cynnwys darpariaeth ar gyfer medrau llythrennedd, rhifedd a digidol oedolion; a 1,372 o weithgareddau dysgu ar gyfer y maes pwnc 'Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu', sy'n cynnwys cyrsiau i ddatblygu medrau digidol. Yn y flwyddyn honno, cwblhaodd dysgwyr eu cyrsiau'n llwyddiannus yn y meysydd pwnc hyn ar gyfraddau o 84% ac 81% yn y drefn honno.

Mae'r cyfraddau y mae dysgwyr yn cwblhau, yn ennill ac yn llwyddo yn eu cymwysterau, wrth gwrs yn wybodaeth bwysig, yn fuddiol wrth werthuso effeithiolrwydd y sector neu bartneriaeth. Fodd bynnag, mae'r metrigau hyn yn rhoi safbwynt cyfyngedig iawn, yn enwedig pan nad yw cyfran sylweddol o gyflwyno medrau llythrennedd, rhifedd, digidol neu fathau eraill o ddarpariaeth yn y sector DOG, wedi'i hachredu'n ffurfiol; ac yn aml, nid ennill cymhwyster yw prif ddiben dysgwr ar gyfer astudio.

Ar hyn o bryd, nid yw'r Adroddiad Canlyniadau Dysgwyr cyhoeddedig na safle manylach LLWR-Inform yn rhoi mewnwelediad i'r ffordd y mae dysgwyr yn cael eu cadw neu'n symud ymlaen trwy ddarpariaeth dysgu oedolion yn y gymuned.

### Dadansoddi data CDGOC a osodwyd gan ystadegwyr Medr

Yn ogystal â'r data yr adroddir amdano uchod, cynhaliodd ystadegwyr Medr ddadansoddiadau data i gefnogi'r adroddiad thematig hwn, gyda mynediad at set ddata lawn CDGOC. Archwiliodd eu dadansoddiad set ddata CDGOC ar gyfer dysgu oedolion yn y gymuned (DOG – gweler yr Eirfa) a gyflwynir gan ddarparwyr awdurdodau lleol a chan golegau addysg bellach. Nid oedd yn cynnwys addysg bellach ran-amser nac amser llawn a gyflwynir gan golegau na nodwyd yn set ddata CDGOC fel DOG. Rydym yn adrodd am y fethodoleg yn adran 'Dulliau a sail y dystiolaeth' yr adroddiad hwn.

Roedd 3,000 o ddysgwyr unigryw a fu'n dilyn o leiaf un gweithgaredd neu gwrs dysgu llythrennedd, llythrennedd digidol, neu rifedd yn 2022-2023, ac o blith y rhain:

- Roedd 1,215 o ddysgwyr yn astudio llythrennedd
- Roedd 1,170 o ddysgwyr yn astudio llythrennedd digidol
- Roedd 975 o ddysgwyr yn astudio rhifedd

Roedd rhai dysgwyr yn astudio mathau lluosog o gyrsiau medrau llythrennedd, rhifedd neu ddigidol oedolion.

Roedd dysgwyr yn fwy tebygol o fod yn byw mewn cymdogaethau difreintiedig, yn seiliedig ar Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALlC).

O'r 3,000 o ddysgwyr, roedd 42% rhwng 25 a 49 oed, roedd 23% o ddysgwyr yn 65 oed neu'n hŷn, ac roedd 5% o dan 19 oed. Roedd dysgwyr hŷn yn fwy tebygol o astudio llythrennedd digidol. At ei gilydd, roedd 70% o ddysgwyr yn fenywod (yn gyson â chanfyddiadau arolwg diweddar Dysgu Oedolion yng Nghymru – Sefydliad Dysgu a Gwaith, 2024). Hunangofnododd 20% o ddysgwyr fod ganddynt anhawster ac/neu anabledd dysgu.

Roedd 4,480 o weithgareddau medrau sylfaenol yn cael eu cyflwyno mewn llythrennedd, 'llythrennedd digidol' neu rifedd yn 2022-2023. O'r rhain, roedd 8% o weithgareddau yn gymwysterau cydnabyddedig yng nghronfa ddata Cymwysterau yng Nghymru. Roedd 46% arall o weithgareddau yn unedau o gymwysterau. Nid yw 46% arall yn cyd-fynd â'r naill na'r llall o'r disgrifiadau hyn.

Roedd awdurdodau lleol yn cyflwyno 24% o weithgareddau yn uniongyrchol. Roedd 69% arall yn cael eu cyflwyno gan awdurdodau lleol trwy drefniant rhyddfraint gyda choleg. Roedd y 7% o weithgareddau sy'n weddill yn cael eu cyflwyno gan golegau. Roedd nifer fawr o gymwysterau llythrennedd, medrau digidol neu rifedd yn cael eu cyflwyno gan golegau fel cwrs addysg bellach rhan-amser, ond nid oedd hyn yn cael ei ddosbarthu gan y coleg fel dysgu oedolion yn y gymuned.

Roedd cyfanswm o 94% o weithgareddau medrau sylfaenol a nodwyd mewn llythrennedd, llythrennedd digidol neu rifedd, yn cael eu cyflwyno trwy gyfrwng y Saesneg.

Lle cafodd lefel ei nodi, roedd 53% o weithgareddau yn rhai lefel mynediad, roedd 25% yn rhai lefel 1, ac 18% yn rhai lefel 2. Fodd bynnag, nid oedd gan 1,405 o weithgareddau lefel benodol.

## Ystod y ddarpariaeth medrau llythrennedd, rhifedd a digidol

Er mwyn deall ystod y cyrsiau a gynigir i ddatblygu medrau llythrennedd, rhifedd neu ddigidol dysgwyr, gofynnom i'r partneriaethau yr ymwelom ni â nhw gwblhau datganiad data i ni yn nodi pa gyrsiau yr oeddent yn eu cynnig, ar ba lefelau. Cwblhaodd pob un o'r naw partneriaeth neu ddarparwr yr ymwelom ni â nhw eu datganiad data, gan alluogi i ni gael mewnwelediad manwl i ystod y cyrsiau a gynigir. Sylwer mai data'r partneriaethau eu hunain yw hwn – nid data wedi'i wirio'n swyddogol – ac nid yw wedi cael y gwiriadau ansawdd a fyddai'n berthnasol i ddata cyhoeddedig, wedi'i wirio. Gan mai 9 yn unig o'r 14 partneriaeth dysgu oedolion (yn cynnwys Addysg Oedolion Cymru) a gafodd eu cynnwys yn yr astudiaeth hon, mae'r data'n cynrychioli sampl yn unig o'r darlun ledled Cymru.

Ni ofynnom yn benodol i wybodaeth yn y datganiad data gynnwys cyrsiau a ariennir gan Lluosi. Mewn gwybodaeth, dychwelodd pedair partneriaeth wybodaeth am gyrsiau a ariennir gan Lluosi, ac felly, er cysondeb, byddwn yn ymdrin â darpariaeth a ariennir gan Lluosi yn y partneriaethau hynny ar wahân.

Nododd y 9 partneriaeth gyfanswm o 1,124 o gyrsiau. Mewn rhai achosion, roedd y rhain yn cynnwys fersiynau lluosog o'r un cwrs ond yn cael eu cynnal mewn gwahanol leoliadau (e.e. 'Mathemateg i Bawb (Lleoliad 1)', 'Mathemateg i Bawb (Lleoliad 2)', ac ati.) ac felly, mae 1,124 yn gynrychiolaeth ormodol o'r holl amrywiaeth o wahanol gyrsiau a gynigir.

## Llythrennedd, rhifedd neu ddigidol?

Gofynnom i'r partneriaethau hunangategoreiddio'u cyrsiau fel 'Llythrennedd', 'Rhifedd' neu 'Ddigidol'[4]. Mae Tabl 1 yn dangos categoreiddiadau'r partneriaethau eu hunain o'u cyrsiau. Cafodd 347 eu categoreiddio fel 'Digidol', 420 fel 'Llythrennedd' a 259 fel 'Rhifedd'. Cafodd 82 eu categoreiddio fel cyfuniad o lythrennedd, rhifedd neu ddigidol, neu ni chawsant eu nodi.

**Tabl 1: categoreiddiad partneriaethau eu hunain o'u cyrsiau**

| Categori | Nifer |
|---|---:|
| Digidol | 347 |
| Llythrennedd | 420 |
| Rhifedd | 259 |
| Llythrennedd / Rhifedd | 17 |
| Llythrennedd / Rhifedd / Digidol | 6 |
| Llythrennedd / Digidol | 24 |
| Cyfuniad (heb nodi) | 35 |
| Ddim yn gwybod | 14 |
| Arall | 2 |
| Cyfanswm | 1,124 |

## Y cydbwysedd rhwng darpariaeth achrededig ac anachrededig

Gofynnom i bartneriaethau nodi pa gyrsiau oedd wedi'u hachredu a pha rai nad oeddent wedi eu hachredu. Mae Tabl 2 yn dangos eu hymatebion. Nid oedd cyfanswm o 457 o'r cyrsiau a nodwyd wedi'u hachredu ac roedd 566 wedi'u hachredu. Nid oedd unrhyw fynediad i'r maes hwn mewn 101 o achosion – o un bartneriaeth, yn bennaf – ac mae'r rhain wedi cael eu disgrifio yma fel 'Ddim yn hysbys'.

[4] Rydym wedi cofnodi'r data gwreiddiol a dderbyniwyd gan bartneriaethau trwy gydol y dadansoddiad hwn i symleiddio ac egluro.

Mae angen i bartneriaethau gynnig cydbwysedd rhwng cyrsiau, sy’n diwallu anghenion dysgwyr: ni fydd rhai dysgwyr yn barod i ddilyn cyrsiau achrededig a bydd ganddynt fwy o ddiddordeb mewn darpariaeth ymgysylltu; mae dysgwyr eraill yn barod, neu mae angen iddynt ennill cymwysterau fel cymwysterau Sgiliau Hanfodol Cymru (gweler Cymwysterau Cymru, 2025) neu fathemateg neu Saesneg TGAU i symud ymlaen.

Mae’r ystod o ddarpariaeth achrededig ac anachrededig a ddangosir yma yn awgrymu cyfuniad sydd â chydbwysedd eithaf da o gyrsiau sy’n arwain at gymhwyster a chyrsiau nad ydynt.

**Tabl 2: categoreiddiad partneriaethau eu hunain o’u cyrsiau**

| Categori | Achrededig | Heb eu hachredu | Ddim yn gwybod | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| Digidol | 164 | 130 | 53 | 347 |
| Llythrennedd | 207 | 188 | 25 | 420 |
| Rhifedd | 149 | 90 | 20 | 259 |
| Llythrennedd / Rhifedd | 6 | 11 | | 17 |
| Llythrennedd / Rhifedd / Digidol | | 6 | | 6 |
| Llythrennedd / Digidol | 24 | | | 24 |
| Cyfuniad (heb nodi) | 10 | 25 | | 35 |
| Ddim yn gwybod | 6 | 7 | 1 | 14 |
| Arall | | | 2 | 2 |
| Cyfanswm | 566 | 457 | 101 | 1,124 |

## Sefydliadau dyfarnu

Mae partneriaethau a’r darparwyr unigol ynddynt yn dewis pa sefydliadau dyfarnu y maent yn eu defnyddio i achredu eu darpariaeth. Yn ystod ein hymweliadau, gofynnom i bartneriaethau am y penderfyniadau a wnânt wrth ddewis sefydliad dyfarnu ar gyfer achredu’r cyrsiau y maent yn eu cynnig. Mae Tabl 3 yn dangos ystod y sefydliadau

dyfarnu[5] sy'n cael eu defnyddio ar gyfer cyrsiau achrededig. Ni ddychwelodd un darparwr wybodaeth am sefydliadau dyfarnu. Agored Cymru yw'r sefydliad dyfarnu a ddefnyddir amlaf ac fe'i defnyddir gan bob un o'r wyth partneriaeth a ddychwelodd wybodaeth yn y maes hwn. Mae darparwyr awdurdodau lleol a cholegau addysg bellach yn defnyddio Agored Cymru.

Ar y cyfan, dywedodd darparwyr wrthym eu bod yn defnyddio Agored Cymru oherwydd bod dewis eang o opsiynau achredu ar gael, y gallai darparwyr deilwra unedau achrededig i ddiwallu anghenion eu dysgwyr neu ddatblygu achrediadau pwrpasol, lle mae angen. Roedd partneriaethau hefyd yn gwerthfawrogi'r opsiynau ar gyfer achredu ar lefel mynediad a'r gallu i achredu unedau dysgu bach iawn a dulliau asesu heb eu harchwilio – mae hynny'n fuddiol i ddysgwyr sy'n dychwelyd i ddysgu ffurfiol, a gallai'r disgwyliad o asesiadau hirfaith, ffurfiol neu sydd wedi'u seilio ar arholiadau, achosi i ddysgwyr beidio â gwneud hynny.

City & Guilds oedd yr ail sefydliad dyfarnu a ddefnyddir amlaf. Roedd dau ddarparwr mewn dwy o'r wyth partneriaeth a oedd yn dychwelyd gwybodaeth yn y maes hwn yn defnyddio'r sefydliad dyfarnu hwn, yn bennaf ar gyfer achredu cymwysterau Sgiliau Hanfodol Cymru. Yn y naill achos a'r llall, colegau addysg bellach oedd y darparwyr sy'n defnyddio City & Guilds, ac roedd y coleg yn defnyddio'r sefydliad dyfarnu hwnnw i achredu cymwysterau Sgiliau Hanfodol Cymru a gynigir trwy ei ddarpariaeth addysg bellach neu ddysgu yn y gwaith.

Roedd CBAC yn cael ei ddefnyddio gan ddarparwyr yn y ddwy bartneriaeth – un yn goleg, un yn ddarparwr awdurdod lleol. Yn y naill achos a'r llall, y cyrsiau achrededig oedd Saesneg neu fathemateg TGAU, neu Sgiliau Hanfodol Cymru.

Roedd BCS yn cael ei ddefnyddio gan un darparwr yn unig, i achredu nifer fach o gyrsiau medrau digidol. Roedd Signature hefyd yn cael ei ddefnyddio gan un darparwr yn unig, i achredu rhaglen Iaith Arwyddion Prydain.

---

[5] Gweler gwefan Ffederasiwn y Cyrff Dyfarnu i gael gwybodaeth a dolenni at sefydliadau dyfarnu unigol – https://awarding.org.uk/our-members

**Tabl 3: Sefydliadau dyfarnu sy'n cael eu defnyddio i achredu cyrsiau**

| Sefydliad Dyfarnu | Nifer |
|---|---|
| Agored Cymru | 478 |
| City & Guilds | 63 |
| CBAC | 19 |
| BCS | 4 |
| Signature | 1 |
| Ddim yn gwybod | 1 |
| Cyfanswm | 566 |

## Lefelau'r cyrsiau a gynigir

Gofynnom i bartneriaethau nodi ar ba lefel[6] yr oedd y naill a'r llall o'r cyrsiau yr oeddent yn eu cynnig, yn achrededig ac anachrededig, yn cael ei chyflwyno. Dim ond mewn un achos o'r 1,024 o gyrsiau a nodwyd y nododd y bartneriaeth lefel 3. Mae hyn yn cadarnhau ein canfyddiadau o siarad â phartneriaethau DOG fod gan ddarpariaeth gymunedol ar gyfer medrau llythrennedd, rhifedd a digidol oedolion derfyn ar lefel 2.

Roedd partneriaethau'n cofnodi ystod o lefelau (e.e. 'mynediad 2 i lefel 2', 'E1 – E3') yn y maes data hwn yn aml, sy'n dangos bod dysgwyr yn aml yn dilyn cwrs ar wahanol lefelau – dull priodol sy'n dangos bod partneriaethau'n teilwra'u darpariaeth i weddu i alluoedd dysgwyr – arwydd sy'n cael ei gadarnhau, at ei gilydd, gan ein canfyddiadau arolygu a'n hymweliadau â darparwyr.

Roedd ystod amlaf y lefelau a gynigir ar lefel mynediad a lefel 1, a thua 90% o'r cyrsiau'n cael eu cynnig ar y lefelau hyn. Roedd tua 10% o gyrsiau'n nodi lefel 2. Y rhain yn nodweddiadol oedd Mathemateg neu Saesneg TGAU neu gymwysterau Sgiliau Hanfodol Cymru, neu unedau Agored ar lefel 2.

[6] Mae'r term 'lefel', yma, yn ymwneud â'r lefelau yn y Fframwaith Credydau a Chymwysterau. Gweler https://www.llyw.cymru/fframwaith-credydau-chymwysterau am fwy o wybodaeth.

## Ystod y cyrsiau a gynigir ar gyfer medrau llythrennedd, rhifedd neu ddigidol

### Llythrennedd

Nodwyd mai prif fwriad cyfanswm o 420 o gyrsiau gan y naw partneriaeth oedd datblygu medrau llythrennedd. Y cymwysterau llythrennedd lefel uchaf a oedd yn cael eu cynnig oedd Saesneg TGAU (lefel 2), a gynigir gan ychydig o bartneriaethau. Roedd pob un o'r partneriaethau'n cynnig cymhwyster Sgiliau Hanfodol Cymru mewn Cyfathrebu o lefel mynediad hyd at lefel 2.

Roedd y rhan fwyaf o'r partneriaethau hefyd yn cynnig ystod o gymwysterau llai, o lefel mynediad i lefel 2, wedi'u hachredu gan Agored Cymru. Roedd y rhain yn cynnwys cymwysterau gyda theitlau fel:

- Darllen gwybodaeth a chyfarwyddiadau
- Gweithio gyda llythrennau'r wyddor
- Defnyddio ffoneg ar gyfer darllen – cytseiniaid unigol
- Ysgrifennu i berswadio
- Ysgrifennu i gyfleu gwybodaeth
- Ysgrifennu i ddisgrifio
- Datblygu medrau ysgrifennu – testun hunangofiannol
- Sillafu ymarferol
- Rhoi cyflwyniad
- Cymryd rhan mewn trafodaethau ffurfiol
- Atalnodi a gramadeg
- Medrau trafod
- Ysgrifennu i gyfleu barn
- Helpu plentyn i ddatblygu ei fedrau gwrando
- Defnyddio sachau stori
- Darllen ac ysgrifennu yn y gweithle
- Ysgrifennu gwybodaeth bersonol

Roedd ystod o ddarpariaeth anachrededig yn dangos elfennau o ymgysylltu a darpariaeth dysgu teuluol, gan gynnwys:

- Gwella'ch Saesneg
- Gorsaf sgwrsio
- Saesneg ar gyfer cyflogadwyedd
- Ysgrifennu creadigol
- Amser stori
- Makaton
- Clwb llyfrau
- Ysgrifennu CV
- Welintons yn y goedwig (Wellies in the woods)
- Saesneg i bawb (English for all)

- Rhoi Sglein ar eich Sgiliau
- Ymwybyddiaeth o ddyslecsia: darllen a dyslecsia, lles, strategaethau a thechnoleg gynorthwyol
- Helpu plentyn i ddarllen
- Cyfathrebu trwy: seicoleg / seryddiaeth / ieithoedd / cerddoriaeth

## Rhifedd

Mewn patrwm tebyg i ddarpariaeth ar gyfer medrau llythrennedd a digidol, roedd amrywiaeth sylweddol ar draws partneriaethau o ran ystod y ddarpariaeth a gynigir. Nododd partneriaethau 259 o gyrsiau i ddatblygu rhifedd, yn bennaf. Roedd yr holl bartneriaethau'n cynnig cymwysterau achrededig allweddol cymhwyster Sgiliau Hanfodol Cymru mewn Cymhwyso Rhif lefel mynediad hyd at lefel 2. Roedd ychydig ohonynt yn cynnig mathemateg TGAU, hefyd.

Roedd darpariaeth achrededig – fel arfer gydag Agored Cymru – yn cynnwys:

- Mesurau cyffredin – hyd / pwysau / capasiti
- Enillion ac incwm
- Defnyddio rhifau i fyny i 100
- Lluosi a rhannu
- Perimedr, arwynebedd a chyfaint
- Cyfrifo gyda rhifau cyfan
- Trin data
- Pedair rheol rhifau cyfan
- Ffracsiynau, degolion a chanrannau
- Trin arian
- Deall eich biliau
- Paratoi cyn TGAU
- Siapiau

Roedd darpariaeth anachrededig yn cynnwys ystod o gyrsiau, gan gynnwys:

- Gadewch i ni goginio ar gyllideb
- Medrau hanfodol trwy goginio
- Gwella'ch mathemateg
- Rhifedd trwy: goginio, creu gemwaith, gwnïo, gwneud dillad, gwaith coed, crefftau treftadaeth
- Cyllidebu ar gyfer aelwyd
- Coginio i rieni

## Medrau digidol

O'r 1,024 o gyrsiau a nodwyd gan bartneriaethau, roedd 347 wedi eu categoreiddio'n gyrsiau i wella medrau digidol, yn bennaf. Ar draws y naw partneriaeth, roedd amrywiaeth eang o gyrsiau'n cael eu cynnig. Roedd pob un o'r partneriaethau'n cynnig cymwysterau achrededig allweddol Sgiliau Hanfodol Cymru mewn Llythrennedd

Digidol ar lefel mynediad hyd at lefel 2. Roedd ychydig ohonynt yn cynnig cymwysterau TG cydnabyddedig ar lefel 2 fel ICDL (Trwydded Ryngwladol Gyrru Cyfrifiadurol).

Roedd amrywiaeth sylweddol o unedau digidol achrededig llai (unedau Agored Cymru, fel arfer). Roedd yr ystod a'r amrywiaeth yn amrywio'n sylweddol rhwng partneriaethau. I roi synnwyr o ystod y ddarpariaeth achrededig a gynigir ar draws y naw partneriaeth, roedd cyrsiau achrededig yn cael eu cynnig yn y canlynol:

- Cyhoeddi bwrdd gwaith
- Cyfrifoldeb digidol a diogelwch ar-lein
- Prosesu geiriau (postgyfuno, defnyddio delweddau, golygu)
- Medrau Microsoft Office
- Taenlenni
- Defnyddio ffôn symudol / cyfrifiadur llechen
- Archwilio cyfleoedd swydd ar-lein
- Defnyddio Google Drive
- Dod o hyd i wybodaeth, a chyfnewid gwybodaeth

Roedd ystod sylweddol o ddarpariaeth anachrededig hefyd, sydd eto'n amrywio'n sylweddol rhwng partneriaethau. Roedd teitlau cyrsiau'n tueddu i fod mewn iaith sy'n gyfeillgar i ddysgwyr, ac yn cynnwys:

- Ewch ar-lein – cyfrifiaduron ar gyfer dechreuwyr
- Cyfrifiaduron llechen a ffonau symudol ar gyfer dechreuwyr llwyr
- Sesiynau galw i mewn digidol
- Dod i adnabod eich ffôn clyfar
- Gweithdy cyfryngau cymdeithasol
- Defnyddio'ch cyfrifiadur llechen yn greadigol
- Dydy cyfrifiaduron ddim yn brathu / cnoi!

## Dysgu digidol – fel elfen o ddarpariaeth ac fel offeryn addysgu a dysgu

Ym mhob un o'r partneriaethau yr ymwelom ni â nhw yn rhan o'r astudiaeth hon, roedd cyrsiau medrau digidol neu lythrennedd digidol yn elfen o'r cynnig darpariaeth safonol ar gyfer dysgwyr sy'n oedolion yn y bartneriaeth. Roedd dulliau medrau digidol a dysgu digidol hefyd yn cael eu defnyddio fel mater o drefn gan ddysgwyr a thiwtoriaid ar gyrsiau a oedd wedi'u bwriadu i ddatblygu llythrennedd a rhifedd oedolion, yn bennaf.

Rydym wedi amlinellu uchod sut mae partneriaethau'n cynnig ystod o gyrsiau llythrennedd achrededig ac anachrededig yn rhan o'u cynnig darpariaeth. Mae'r rhain yn disgyn yn fras i dri chategori, sef:

- Cyrsiau sy'n nodweddiadol yn anachrededig, yn nodweddiadol ar gyfer dysgwyr hŷn y maent eisiau datblygu eu medrau digidol i wneud pethau ymarferol, fel trefnu archeb bwyd gydag archfarchnad, lawrlwytho llyfrau llafar, a gwrando arnynt, defnyddio bancio ar-lein yn ddiogel, neu gysylltu trwy blatfformau cyfarfod rhithwir gyda pherthnasau. Yn aml, mae eisiau help ymarferol ac

uniongyrchol ar ddysgwyr o ffynhonnell ymddiriedus ar ddefnyddio'u ffonau clyfar, cyfrifiaduron llechen neu liniaduron. Er bod maes llafur ar-lein bob amser ar gyfer y cyrsiau hyn, mae tiwtoriaid yn teilwra'u sesiynau i ddiddordebau neu ymholiadau unigol dysgwyr, fel mater o drefn.  Mae partneriaethau'n cynnig sesiynau 'galw i mewn digidol' yn fynych mewn lleoliadau cymunedol hefyd lle gall dinasyddion gael cymorth i ddefnyddio'u dyfeisiau digidol. Nid yw pob dosbarth o'r fath ar gyfer dysgwyr hŷn. Er enghraifft, ymwelom ag un bartneriaeth lle roedd rhieni plant mewn ysgol gynradd wedi gofyn am sesiwn ar ddefnyddio porthol yr ysgol ar gyfer cydsynio i dripiau ysgol, talu am brydau bwyd ysgol neu roi gwybod bod plentyn yn absennol.

- Cyrsiau a allai fod yn achrededig neu'n anachrededig sydd wedi'u bwriadu i gynorthwyo oedolion sy'n chwilio am gyflogaeth. Gellir cynnig y rhain ar y cyd ag atgyfeiriadau gan y Ganolfan Byd Gwaith, neu i ymateb iddynt, a'u bwriad yw cynorthwyo oedolion i ddatblygu CV neu ddefnyddio prosesau ymgeisio neu gyfweld ar-lein, er enghraifft.
- Cyrsiau sy'n gwella medrau digidol cyffredinol oedolion, a gallant fod yn gyrsiau achrededig neu anachrededig. Mae'r rhain ar gyfer oedolion o bob oed ac yn canolbwyntio ar fedrau fel defnyddio meddalwedd prosesu geiriau, taenlen, cyfrifyddu neu gyflwyno. Yn nodweddiadol, mae angen i oedolion sy'n cofrestru ar y cyrsiau hyn ddefnyddio'r medrau hyn yn y gwaith neu i ymgeisio am swydd newydd, neu mewn gwaith gwirfoddol neu gymunedol, neu ar gyfer diddordeb personol.

Fel y nodom yn gynharach, mae dysgwyr yn llai hunanymwybodol o gael medrau digidol gwael canfyddedig ac yn fwy cyfforddus yn cofrestru ar gwrs medrau digidol nag y gallent fod ynglŷn â chofrestru ar gwrs rhifedd neu lythrennedd. Yn y modd hwn, mae cyrsiau medrau digidol yn llwybr mynediad gwerthfawr ar gyfer rhai dysgwyr i ddarpariaeth llythrennedd neu rifedd. Dywedodd tiwtoriaid wrthym eu bod yn gallu adnabod dysgwyr a allai fod yn cael trafferth â llythrennedd neu rifedd pan fyddant yn addysgu ar gyrsiau medrau digidol. Yn yr achosion hyn, gall tiwtoriaid helpu dysgwyr yn uniongyrchol ond byddant hefyd yn cyfeirio dysgwyr i gael cymorth penodol â llythrennedd a rhifedd.

Roedd tiwtoriaid sy'n cyflwyno sesiynau a fwriedir yn bennaf ar gyfer datblygu rhifedd a llythrennedd yn cynnwys offer digidol yn eu haddysgu, fel mater o drefn, ac yn ystyried bod addysgu medrau digidol sylfaenol yn rhan annatod o'u rôl. Er enghraifft, gall integreiddio offer digidol mewn gwersi llythrennedd a rhifedd wneud dysgu'n fwy difyr a pherthnasol trwy gysylltu medrau â chyd-destunau bywyd go iawn: gall dysgwyr ysgrifennu llythyrau ffurfiol gan ddefnyddio meddalwedd prosesu geiriau, creu taenlenni i wella rhifedd, neu ddefnyddio ymchwil ar-lein ar gyfer dysgu yn seiliedig ar brosiect.

Fodd bynnag, roedd tiwtoriaid hefyd yn briodol o ofalus nad yw integreiddio medrau digidol yn gorlwytho dysgwyr, yn enwedig y rhai ar lefelau is. Roeddent yn pwysleisio pwysigrwydd cydbwyso addysgu pob medr i osgoi colli ffocws ar amcanion llythrennedd a rhifedd craidd.

Yn aml, roedd tiwtoriaid yn defnyddio offeryn asesu cychwynnol ar-lein WEST fel rhan o raglen llythrennedd neu rifedd. Fodd bynnag, mae'r dolenni a'r adnoddau digidol a oedd yn gysylltiedig â phecyn WEST wedi dyddio i raddau helaeth erbyn hyn neu nid ydynt yn gweithio'n gywir mwyach.

Dywedodd tiwtoriaid fod cwblhau asesiad WEST ar-lein yn gallu creu heriau i ddysgwyr sydd â medrau neu hyder digidol gwael. Gallai'r tasgau hyn godi ofn ar ddysgwyr sy'n anghyfarwydd â defnyddio cyfrifiaduron, cyfrifiaduron llechen neu feddalwedd benodol, sy'n creu rhwystrau ar gychwyn cyntaf eu taith ddysgu. Yn yr achosion hyn, roedd tiwtoriaid yn defnyddio dewisiadau eraill yn lle asesiad WEST neu'n cyflwyno WEST yn raddol dros gyfnod.

Roedd tiwtoriaid yn aml yn defnyddio cwisiau, gemau a chynnwys amlgyfrwng fel rhan o'u sesiynau, hefyd. Roedd tiwtoriaid yn ystyriol i gyflwyno elfennau digidol yn raddol er mwyn i ddysgwyr fagu hyder wrth eu defnyddio dros gyfnod. Roedd tiwtoriaid yn pwysleisio pwysigrwydd creu amgylchedd cefnogol lle mae dysgwyr yn teimlo'n gyfforddus yn arbrofi â thechnoleg ac yn gwneud camgymeriadau heb ofni cael eu barnu neu'n ofni 'torri'r dechnoleg' yn anfwriadol. Mae'r dull hwn yn helpu dysgwyr i oresgyn gorbryderon cychwynnol ac yn eu hannog i weld medrau digidol fel elfen werthfawr i'w 'blwch offer dysgu'.

Ni waeth beth yw'r dull, nododd tiwtoriaid fod llawer o heriau wrth addysgu medrau digidol ochr yn ochr â llythrennedd a rhifedd. Roedd y rhain yn cynnwys:

- Lefelau amrywiol o lythrennedd digidol o fewn yr un grŵp, sy'n gallu gwneud gwahaniaethu yn heriol
- Amser cyfyngedig o fewn gwersi llythrennedd a rhifedd i ddarparu hyfforddiant medrau digidol manwl
- Yr angen am dechnoleg ddibynadwy, fel Wi-Fi digonol a digon o ddyfeisiau, i gefnogi dysgu digidol

Mae integreiddio effeithiol yn gofyn bod tiwtoriaid yn fedrus mewn defnyddio offer digidol ac yn y pwnc sy'n cael ei addysgu. Nid yw'r arbenigedd deuol hwn bob amser ar gael, sy'n gallu cyfyngu ar hyfywedd addysgu cyfunol. Fel yr ydym yn nodi yn yr adran ar ddysgu proffesiynol, mae datblygu gallu tiwtoriaid mewn defnyddio offer addysgu digidol wedi bod yn ffocws i weithgarwch dysgu proffesiynol darparwyr.

## Effaith Lluosi ar batrymau darpariaeth

Mae menter 'Lluosi' Llywodraeth y Deyrnas Unedig (Llywodraeth y Deyrnas Unedig, 2022b) wedi cael effaith sylweddol ar y modd y mae partneriaethau a darparwyr DOG wedi cynnig darpariaeth i ddatblygu rhifedd. Daeth y cyllid dynodedig ar gyfer Lluosi i ben ym mis Mawrth 2025, ar ôl dechrau yn 2022, er bod partneriaethau a darparwyr wedi dweud, yn ymarferol, bod ganddynt ffenestr rhwng canol 2023 a mis Mawrth 2025 i wario'r cyllid o'u ceisiadau Lluosi.

Nid yw'r adroddiad hwn wedi'i fwriadu i fod yn werthusiad o Lluosi ac nid yw'n canolbwyntio ar ddarpariaeth Lluosi. Fodd bynnag, mae partneriaethau a darparwyr wedi ei godi'n gyson fel thema yn ein sgyrsiau yn ystod ymweliadau. Roedd darparwyr ym mhob un o'r partneriaethau yr ymwelom ni â nhw wedi gwneud cais am gyllid Lluosi, ac wedi'i dderbyn.

Tynnodd partneriaethau sylw at y cwantwm cymharol fawr o gyllid sydd ar gael trwy fenter Lluosi, tua £100m ledled Cymru (gweler dyraniadau cyllid ar gyfer Lluosi yn Llywodraeth y Deyrnas Unedig, 2022c), yn enwedig o gymharu â gwerth y grant dysgu cymunedol cylchol blynyddol, yr oedd y cyfanswm yn 2023-2024 tua £6.35m ar gyfer partneriaethau DOG ledled Cymru (Medr, 2025c, 2025d) gyda swm tebyg ar gyfer Addysg Oedolion Cymru. Roedd y maint llwyr a'r ffenestr fer ar gyfer gwario'r cyllid Lluosi a oedd ar gael yn creu her i bartneriaethau, ac roeddent yn dyrannu adnodd sylweddol i gynllunio ceisiadau am gyllid, yn marchnata ac yn gweinyddu ceisiadau llwyddiannus ac yn defnyddio staff i'w cyflwyno. Mewn llawer o bartneriaethau a darparwyr, cafodd staff newydd eu recriwtio neu adleolwyd staff presennol i lenwi swyddi gweinyddol neu gyflwyno.

Roedd partneriaethau yn greadigol o ran sut roeddent yn datblygu darpariaeth newydd, nad oeddent wedi gallu ei chynnig yn y gorffennol trwy ffrydiau cyllido a oedd yn bodoli eisoes. Nododd partneriaethau fod gan Lluosi ffrydiau cyllido a oedd yn eu galluogi i ymgysylltu â grwpiau o ddysgwyr yr oeddent wedi cael trafferth ymgysylltu â nhw yn y gorffennol, neu i gyflwyno dysgu teuluol. Yn benodol, crybwyllodd partneriaethau ffrwd gyllido W44, a oedd wedi'i bwriadu i ddarparu cyrsiau, 'sydd wedi'u cynllunio i gynyddu hyder â rhifau ar gyfer y rhai y mae angen iddynt gymryd y camau cyntaf tuag at gymwysterau ffurfiol', ac elfen W45, 'ar gyfer rhieni sydd eisiau cynyddu eu medrau rhifedd er mwyn helpu eu plant, a helpu â'u dilyniant eu hunain' (Llywodraeth y Deyrnas Unedig, 2022a). Dywedodd partneriaethau fod marchnad ar gyfer dysgu am rifedd gan ddefnyddio'r dull ymgysylltu hwn, nad oeddent wedi gallu ei chyrraedd yn y gorffennol.

Rhoddodd pedair partneriaeth wybodaeth i ni am ystod y ddarpariaeth yr oeddent yn ei chynnig, gan ddefnyddio cyllid Lluosi. Roedd y mathau o raglenni a gynigir, yn enwedig o dan elfen W44, yn gyrsiau ymgysylltu anachrededig yn nodweddiadol gyda gogwydd rhifedd, yn cael eu cynnig mewn lleoliadau cymunedol, neu ar y cyd â phrosiectau neu grwpiau cymunedol a oedd yn bodoli eisoes, neu drwy ysgolion gan ddefnyddio dulliau dysgu teuluol. Er enghraifft, roedd cyrsiau'n cynnwys:

- Pobi gyda'ch teulu
- Mecaneg car sylfaenol
- Cyllidebu ar gyfer y Nadolig / gwyliau / penblwyddi
- Coginio gyda ffrïwr aer
- Creu crefftau – troi eich swydd ychwanegol yn fusnes
- Magu hyder wrth drin arian
- Diwrnod Hwyl y Pasg – ffiseg wyau!
- Hwyl gyda rhifau – gweithdy lamplenni
- Cynnal eich busnes eich hun
- Deall eich slip cyflog

- Defnyddio ynni yn y cartref
- Gwario'n glyfar – gweithdy costau byw
- Ymarfer corff ar gyfer pobl hŷn – defnyddio teclyn cyfrif camau
- Rhifau ym myd natur
- Helpu plentyn gyda mathemateg trwy chwarae

Yn ystod Gwanwyn 2025, bu partneriaethau'n gweithio'n galed i baratoi ar gyfer y cyfnod pontio i ffwrdd o gyllid Lluosi dynodedig ac yn datblygu gwaddol o fanteision y cyllid am y tymor hirach. Fodd bynnag, roedd partneriaethau'n aml yn mynegi rhwystredigaeth ynghylch natur 'gwledda a llwgu' cyllid Lluosi, ac ar ôl sefydlu darpariaeth gyda chyllid Lluosi, roeddent yn awr wrthi'n pontio i ffwrdd oddi wrthi. Disgrifiodd un uwch reolwr ei sefyllfa fel "ymbalfalu am arian parod rhag colli'r gorau o'r hyn a ddatblygom ni".

Er bod gan bartneriaethau gofnodion o gyfranogwyr a oedd wedi cwblhau cymwysterau fel rhan o raglenni a ariennir gan Lluosi, nid oedd dull systematig i gofnodi dilyniant cyfranogwyr ymlaen i astudio pellach neu raglenni DOG 'traddodiadol' eraill. Mae hyn yn lleihau eu gallu i werthuso effaith rhaglenni a ariennir gan Lluosi yn y tymor hirach.

Roedd partneriaethau'n gallu defnyddio rhywfaint o'u cyllid Lluosi i fuddsoddi mewn seilwaith ar gyfer darpariaeth DOG yn y dyfodol. Er enghraifft, gosododd un bartneriaeth offer TG newydd neu offer wedi'i uwchraddio yn ei lleoliadau cymunedol; buddsoddodd partneriaeth arall mewn offer a chaledwedd ar gyfer gweithdy ac ystafell ddosbarth crefftau amlbwrpas.

Disgrifiodd y rhan fwyaf o bartneriaethau'r gwaddol o Lluosi o ran y cydweithio a'r cysylltiadau newydd â grwpiau cymunedol, ysgolion a sefydliadau eraill. Dywedon nhw wrthym ni y bydd y rhain yn galluogi ymgysylltu gwell â darpar ddysgwyr newydd yn eu darpariaeth a ariennir gan grant dysgu cymunedol.

## Effaith y ddarpariaeth dysgu teuluol

Pan fydd darpariaeth dysgu teuluol yn cael ei chynnig, caiff ei gwerthfawrogi'n fawr gan ddysgwyr sy'n cymryd rhan, ond ni chaiff ei chynnig ym mhob partneriaeth ledled Cymru. Rydym yn adrodd yn aml ar effeithiau cadarnhaol dysgu teuluol yn ein hadroddiadau arolygu am bartneriaethau (e.e. Estyn, 2022c, 2023c), mewn astudiaethau achos (e.e. Estyn, 2020b, 2022b) ac mewn adroddiadau thematig (e.e. Estyn, 2020c).

Mae dysgu teuluol yn digwydd yn nodweddiadol mewn ysgol ac fe gaiff ei dargedu at rieni, neiniau a theidiau a gofalwyr y plant yn yr ysgol (gweler y Sefydliad Dysgu a Gwaith, 2025). Mae'r fformat ar gyfer dysgu teuluol yn amrywio, ond mae fel arfer yn cynnwys elfen lle mae oedolion yn dysgu heb blant yn bresennol. Gellir cyflwyno hyn fel 'helpu eich plentyn gyda mathemateg / Saesneg' neu gael yr oedolion i ymgyfarwyddo â rhyw agwedd ar gwricwlwm yr ysgol er mwyn i'r oedolyn allu cynorthwyo'i blentyn yn well yn ei ddysgu. Yn aml, mae sesiwn hefyd yn dod ag oedolion a phlant at ei gilydd, ac maent yn gweithio ac yn chwarae gyda'i gilydd, gan ymarfer rhai o'r medrau a gwmpaswyd yn y sesiwn oedolion yn unig.

Mae'r math hwn o ddarpariaeth yn effeithiol iawn o ran lleihau'r rhwystrau sy'n atal oedolion rhag ymgysylltu o'r newydd ag addysg. Nid yw'r fformat yn fygythiol, ac mae'r oedolion yn gyfarwydd ag ysgol eu plentyn. Mewn enghreifftiau effeithiol a welsom yn ystod ein hymweliadau ac yn ein gweithgarwch arolygu, roedd swyddog ymgysylltu â theuluoedd yr ysgol yn helpu nodi ac annog y rhieni y maent yn gwybod y gallent elwa fwyaf o fynychu.

Caiff dysgu teuluol effeithiau cadarnhaol ar les yr oedolion a'r plant. Mae'r oedolion wedi eu cymell i helpu eu plant – a thrwy wneud hynny, yn aml yn ailddarganfod eu diddordeb eu hunain mewn dysgu. Mae'r oedolion hefyd yn cyfarfod â chyd-oedolion sydd â diddordeb mewn dysgu, ac mae hyn yn helpu datblygu ymdeimlad o gymuned. Mae'r plant yn mwynhau bod eu rhieni, eu neiniau a'u teidiau a'u gofalwyr yn dod i'r ysgol, a newydd-deb dysgu gyda nhw fel hyn.

Pan roedd y ddarpariaeth hon yn fwyaf effeithiol, roedd wedi'i gysylltu â llwybrau dilyniant clir ar gyfer yr oedolion a oedd yn ymgysylltu, ac roedd y bartneriaeth yn buddsoddi adnoddau mewn hyrwyddo mwy o adnoddau gyda'r grŵp hwn o oedolion, oedd â ffocws mwy eglur ar ddatblygu medrau llythrennedd, rhifedd neu ddigidol.

**Ciplun ar wythnos ddilyniant yng Ngholeg Caerdydd a'r Fro**

Bwriad Wythnos Ddilyniant yw annog oedolion sy'n ddysgwyr yn y gymuned i symud ymlaen i gyrsiau lefel uwch yn y coleg. Mae'n helpu codi ymwybyddiaeth dysgwyr am ystod yr opsiynau yn y coleg, i godi eu dyheadau ac ennyn hyder yn eu gallu eu hunain. Mae hefyd yn darparu cyfle i ymgeisio am gyrsiau os ydynt yn dymuno.

Cynhelir wythnosau dilyniant bob tymor. Maent yn cynnwys:

- Sesiynau rhagflas a gwybodaeth gan adrannau'r coleg (e.e. cyfrifyddiaeth a chadw llyfrau, mynediad, technoleg, SSIE). Mae sesiynau rhagflas yn ymarferol, yn hwyl ac yn rhoi mewnwelediad i ddysgwyr i ddisgwyliadau a manteision y cyrsiau.
- Cydweithio rhwng partneriaethau – estynnir gwahoddiad i ddysgwyr o Bartneriaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned Caerdydd a'r Fro fynychu, gyda thiwtoriaid, os oes modd.
- Gwasanaethau cymorth ehangach – cymorth gan dîm gyrfaoedd y coleg, a mewnbwn gan wasanaethau lles a bugeiliol i roi sicrwydd i ddarpar ddysgwyr.
- Mae staff o'r tîm Dysgu Teuluol yn mynychu ac yn gweithredu fel cyfryngwyr ymddiriedus, ac yn lleihau rhwystrau rhag cael mynediad i gampws y coleg am y tro cyntaf.
- Caiff hanesion am lwyddiant a thystebau gan ddysgwyr blaenorol eu hamlygu i ysbrydoli a chymell cyfranogwyr newydd.
- Mae'r coleg wedi creu rôl swyddog ymgysylltu i gefnogi ymgysylltiad, cadw a dilyniant oedolion sy'n ddysgwyr.

Gallwch wylio fideo Coleg Caerdydd a'r Fro am wythnos ddilyniant Mehefin 2024 yma: Wythnos ddilyniant Coleg Caerdydd a'r Fro - Mehefin 2024

Roedd llawer o bartneriaethau'n defnyddio cyllid Lluosi i gyflwyno darpariaeth ymgysylltu â theuluoedd wedi'i seilio ar rifedd mewn ysgolion. Er enghraifft, ym mhartneriaeth Powys Castell-nedd Port Talbot, roedd oedolion yn cymryd rhan mewn 'arbrofion gwyddoniaeth' gyda'u plant oedran cynradd. Gwnaeth y bartneriaeth yn siŵr fod oedolion yn gwybod am y cyrsiau eraill a oedd ar gael a llwybrau dilyniant posibl ar gyfer oedolion oedd â diddordeb.

**Ciplun – Dysgu teuluol a ariennir gan Lluosi**

Ym mhartneriaeth Powys Castell-nedd Port Talbot, roedd cyllid Lluosi yn cael ei ddefnyddio i ddarparu sesiynau dan y thema gwyddoniaeth a rhifedd mewn ysgolion. Roedd y rhain yn archwilio'r ffyrdd y mae dysgu gwyddoniaeth a mathemateg yn digwydd yn yr ysgol, ac roedd rhieni'n gweithio gyda'u plant i gynnal arbrofion a chael hwyl gyda'i gilydd.

Ym mhartneriaeth DOG Gogledd Ddwyrain Cymru, roedd cyllid Lluosi yn cael ei ddefnyddio i ariannu sesiynau rhifedd a chodio cyfrifiadur mewn ysgolion, lle roedd rhieni a phlant yn gweithio gyda'i gilydd i raglennu robot i symud o gwmpas cwrs rhwystrau. Roedd y sesiynau'n cynnwys mesur, a chyfrifo pellterau, onglau ac amser, yn ogystal â medrau codio sylfaenol. Roedd y pwyslais ar gymryd rhan, cael hwyl, ymgysylltu, gyda medrau rhifedd a digidol yn elfennau wedi'u hymgorffori.

Agorodd cyllid Lluosi ffrwd gyllido newydd yr oedd darparwyr yn ei defnyddio i ariannu darpariaeth dysgu teuluol.  Fodd bynnag, caewyd y ffrwd gyllido hon ym mis Ebrill 2025. Nid yw'r ffrwd gyllido draddodiadol ar gyfer dysgu oedolion yn y gymuned, sef y grant dysgu cymunedol, wedi ariannu darpariaeth dysgu teuluol, ac o'r herwydd, pan mae partneriaethau wedi ei chynnig, mae wedi cael ei hariannu trwy ddulliau amgen. Dyma yn rhannol sy'n achosi'r ddarpariaeth afreolaidd o raglenni dysgu teuluol ledled Cymru.

## Dilyniant mewn cyrsiau ac ar ôl cyrsiau

Mae cysyniad dilyniant ar gyfer darpariaeth dysgu oedolion yn y gymuned yn gymhleth. Ar ei ffurf symlaf, gellir ystyried dilyniant fel y cynnydd academaidd a wna dysgwyr dros gyfnod. O'i ystyried yn y ffurf hon, er enghraifft, gallai dysgwr ddechrau ar lefel mynediad ym mlwyddyn 1, symud i fyny i gyrsiau lefel 1 y flwyddyn ganlynol, a symud ymlaen i lefel 2 y flwyddyn ar ôl hynny.

I lawer o oedolion sy'n dychwelyd i ddysgu i ddatblygu eu medrau llythrennedd, rhifedd neu ddigidol, mae dilyniant yn y ffordd unionlin hon yn anghyffredin. Mae dysgwyr yn aml yn disgrifio'u dilyniant eu hunain, nid yn unig o ran eu cynnydd academaidd, ond hefyd o ran eu hyder, eu gallu i gymhwyso'r hyn y maent wedi'i ddysgu yn eu bywydau bob dydd, neu yn eu parodrwydd i ymgymryd â dysgu pellach.

Er enghraifft, dywedodd dysgwyr hŷn a oedd yn dilyn cyrsiau digidol i'w cynorthwyo i ddefnyddio'u ffonau symudol, siopa ar-lein neu ddefnyddio meddalwedd fideo gynadledda i aros mewn cysylltiad â'u teuluoedd yn aml nad oedd ganddynt ddiddordeb mewn symud i fyny trwy unrhyw broses 'lefel' ffurfiol, ond parhau i ddysgu, defnyddio ac ymarfer, ac yn aml adolygu ac ailddysgu medrau dros gyfnod o sawl blwyddyn. I'r dysgwyr hyn, cynnal ac ehangu eu medrau digidol ar lefel sylfaenol yw eu prif ddiddordeb mewn dysgu. Roedd y dysgwyr hyn yn aml yn disgrifio gwerth mynychu dysgu iddynt fel ffordd o osgoi teimlo'u bod wedi'u hynysu, defnyddio gwasanaethau digidol iechyd neu'r llywodraeth ar-lein, cyfarfod â ffrindiau a gwneud ffrindiau, neu elwa ar arbenigedd y tiwtor i helpu datrys eu problemau TG.

Ar lefel genedlaethol, caiff data am ddarpariaeth a ariennir gan Medr ei gasglu trwy system cronfa ddata Cofnod Dysgu Gydol Oed Cymru. Ond ni chaiff y data hwn ei ddefnyddio'n systematig i lywio darlun cenedlaethol o gynnydd dysgwyr i ddarpariaeth DOG, oddi mewn iddi, a'r tu hwnt. Ar lefel genedlaethol, nid yw llunwyr polisi felly'n cael gwybodaeth bwysig am effaith darpariaeth llythrennedd, rhifedd, digidol neu DOG arall ar ganlyniadau hirdymor oedolion: y graddau y maent yn symud ymlaen i addysg bellach neu addysg uwch, neu i gyflogaeth.

Ar lefel system, nid yw rhanddeiliaid yn cael gwybodaeth sydd o bosibl yn ddefnyddiol am faint o ddysgwyr newydd sy'n cofrestru ar gyrsiau llythrennedd, rhifedd neu ddigidol mewn darparwyr DOG bob blwyddyn, y gyfran sy'n ailgofrestru o flwyddyn i flwyddyn, y graddau y maent yn symud i fyny neu rhwng lefelau, sut maent yn symud rhwng darparwyr mewn partneriaeth, neu sut a ble maent yn gadael darpariaeth y bartneriaeth.

Ar lefel partneriaeth, mae arweinwyr yn colli tystiolaeth sydd o bosibl yn ddefnyddiol a allai eu hysbysu am effaith eu darpariaeth, a darparu mewnwelediadau i ba agweddau y gallai fod angen iddynt eu diwygio neu'u gwella.

Yn ein harolygiadau diweddar o bartneriaethau DOG, rydym yn aml wedi gadael argymhellion i bartneriaethau a darparwyr i wella'r modd y maent yn gwerthuso cynnydd eu dysgwyr i'w darpariaeth, oddi mewn iddi, a'r tu hwnt. Mae ychydig o bartneriaethau'n dechrau dadansoddi'r data y maent yn ei ddal yn fwy systematig. Er enghraifft, yn ddiweddar, cyflogodd un bartneriaeth ddadansoddwr data i wella'r modd y mae'n defnyddio data gan Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru i fonitro cynnydd dysgwyr. Mae partneriaethau eraill wedi cynnal dadansoddiad cynnar o'r graddau y mae dysgwyr yn cofrestru, yn ailgofrestru neu'n symud rhwng lefelau yn eu partneriaeth.

**Ciplun ar ddefnyddio data i ddadansoddi cyfraddau dilyniant**

Yn ddiweddar, mae partneriaeth Conwy a Sir Ddinbych wedi dechrau dadansoddi gwybodaeth am gofrestru a chyrchfannau i ddarparu mewnwelediad gwerthfawr. Mae cofnodion y bartneriaeth yn dangos bod tua thraean o ddysgwyr y bartneriaeth yn 2022-2023 wedi dilyn cyrsiau dysgu oedolion yn y gymuned yn y gorffennol. Aeth tua 40 y cant o ddysgwyr y flwyddyn honno ymlaen i gofrestru ar gyrsiau eraill o fewn y bartneriaeth neu i gyrsiau addysg bellach amser llawn neu ran-amser. Gweler yr astudiaeth achos o bartneriaeth Conwy a Sir Ddinbych ar wefan Estyn (Estyn, 2025a).

Mae Addysg Oedolion Cymru wedi cynnal dadansoddiad o ddilyniant dysgwyr. Yn 2023-2024, gwelsant fod cyfran debyg (38%) wedi cofrestru ar gyrsiau llythrennedd neu rifedd yn y darparwr yn y gorffennol. Roedd tua 10% o ddysgwyr wedi cofrestru ar gyrsiau tebyg y flwyddyn flaenorol. O'r rhain, roedd tua 46% wedi ailgofrestru ar gyrsiau ar yr un lefel, 24% ar gyrsiau ar lefel is, a 29% ar lefel uwch.

Ar lefel yr ystafell ddosbarth a sut mae tiwtoriaid unigol yn gweithio gyda'u dysgwyr, un o nodweddion cyson darpariaeth medrau llythrennedd, rhifedd a digidol mewn DOG yw pa mor dda y mae tiwtoriaid yn adnabod eu dysgwyr ac yn teilwra'u dulliau i anghenion dysgwyr unigol. Roedd y rhan fwyaf o diwtoriaid yn defnyddio offer asesu cychwynnol a diagnostig, fel WEST. Gall tiwtoriaid ddefnyddio'r rhain i ailbrofi dysgwyr, neu gellir eu defnyddio gan ddysgwyr fel hunanasesiadau, i fesur eu cynnydd.


Roedd y rhan fwyaf o diwtoriaid yn defnyddio cynlluniau dysgu unigol (CDUau), a phan roedd y rhain yn cael eu defnyddio'n effeithiol, maent yn rhoi golwg fanwl ar gynnydd dysgwr unigol. Yn aml, roedd tiwtoriaid yn ychwanegu cofnodion o waith dysgwyr, olrheinwyr dilyniant neu offer digidol at CDUau, i fonitro datblygiad dysgwyr yn fwy systematig.

Fodd bynnag, prin yw'r darparwyr oedd yn defnyddio'r wybodaeth fanwl hon am gynnydd dysgwyr i lywio gwerthusiad o'u darpariaeth, ac anaml y daethpwyd o hyd i unrhyw ystyriaeth i'r wybodaeth a gafwyd o CDUau neu ddadansoddiad lefel tiwtor o gynnydd mewn adroddiadau hunanwerthuso darparwr.

Yn ein hadroddiadau arolygu, rydym wedi bod yn feirniadol o bartneriaethau DOG lle mae gwaith partneriaeth wedi bod yn wael, neu ble nad yw partneriaethau wedi cael trefniadau cadarn rhwng darparwyr. Yn yr achosion hyn, nid yw arweinwyr wedi rhoi ystyriaeth ddigonol i sut gall dysgwyr symud trwy ddarpariaeth y bartneriaeth, yn enwedig lle mae hyn yn golygu symud rhwng darparwyr, a lle na roddwyd digon o wybodaeth o ansawdd da i ddysgwyr i'w helpu i feddwl am eu camau nesaf. Mae partneriaethau wedi dechrau mynd i'r afael â'r materion hyn trwy wella'r graddau y mae darparwyr mewn partneriaeth yn cynllunio'u darpariaeth ar y cyd, a thrwy ddatblygu arweiniad cliriach ar gyfer dysgwyr, er enghraifft trwy wefannau gwell partneriaethau.

## Ciplun ar wybodaeth am ddilyniant i ddysgwyr

Ym Mhartneriaeth DOG Gwynedd a Môn, rhoddir 'mapiau dilyniant' syml i ddysgwyr, sy'n dangos ystod y cyrsiau sydd ar gael ar wahanol lefelau, a sut mae cwrs ar un lefel yn arwain ymlaen i'r lefel nesaf.




Ym Mhartneriaeth DOG Rhondda Cynon Taf, mae dysgwyr yn cael cyflwyniad, sydd hefyd ar gael fel [fideo ar-lein](), yn esbonio beth mae 'lefelau' cymwysterau yn ei olygu, sut gall dysgwyr symud rhwng y gwahanol ddarparwyr yn y bartneriaeth a sut gall symud ymlaen trwy'r lefelau hyn agor cyfleoedd ar gyfer hyfforddiant neu addysg bellach, neu gyflogaeth.




Mae'r rhain yn enghreifftiau o ddulliau syml sy'n helpu dysgwyr i ddeall yr opsiynau sydd ar gael iddynt a sut gallant fynd â'u dysgu ymhellach.

Ceir ychydig o enghreifftiau o ble mae partneriaeth yn cynllunio a hyrwyddo cyfleoedd dilyniant yn effeithiol iawn.

**Ciplun ar gynllunio darpariaeth**

Mae gan Bartneriaeth DOG Caerdydd a'r Fro ddull cynllunio darpariaeth sy'n nodi rolau pob darparwr, gan nodi ac ystyried meysydd posibl o orgyffwrdd neu fylchau mewn darpariaeth:



# Thema 4 – Darpariaeth ddwyieithog a chyfrwng Cymraeg

Mae'n bwysig egluro yma pa fath o ddarpariaeth sy'n cael ei thrafod. Mae ein ffocws ar ddosbarthiadau medrau llythrennedd, rhifedd neu ddigidol yn y gymuned lle iaith y dysgu neu'r asesu yw'r Gymraeg. Yn nodweddiadol, byddai'r dosbarthiadau hyn yn cael eu hanelu at oedolion sy'n siarad Cymraeg a gwblhaodd eu haddysg ysgol trwy gyfrwng y Gymraeg neu sy'n ffafrio'r Gymraeg fel eu hiaith ar gyfer dysgu. Mae gwahaniaeth rhwng y ddarpariaeth hon a darpariaeth a gynigir i oedolion sy'n dymuno dysgu Cymraeg neu wella'u Cymraeg, a gynigir gan Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol gan ddefnyddio'r brand, 'Dysgu Cymraeg ¦ Learn Welsh'. Mae Estyn yn arolygu'r ddau fath gwahanol o ddarpariaeth o dan fframweithiau arolygu ar wahân (Estyn, 2025b): y cyntaf o dan y fframwaith dysgu oedolion yn y gymuned a'r llall o dan y fframwaith ar gyfer Cymraeg i oedolion.

Er bod Estyn yn gwahaniaethu rhwng y ddau fath o ddarpariaeth yn ein fframweithiau arolygu, yn ymarferol, mae'r darlun yn fwy aneglur: gall oedolion sy'n ddysgwyr Cymraeg fynychu dosbarthiadau DOG a gynigir trwy gyfrwng y Gymraeg, a gall siaradwyr Cymraeg fynychu cyrsiau Dysgu Cymraeg ¦ Learn Welsh, gan gynnwys y rhai ar gyfer siaradwyr 'gloywi' hyfedr i gaboli eu llythrennedd Cymraeg neu wella agweddau technegol ar eu Cymraeg.

Mae ystod o sefydliadau hefyd sy'n hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg ac yn cefnogi cymunedau Cymraeg, trwy gymryd rhan mewn gweithgareddau diwylliannol, dysgu a digwyddiadau anffurfiol, fel Y Mentrau Iaith, Yr Urdd neu Merched y Wawr.

Yn ein harolygiadau o bartneriaethau dysgu oedolion yn y gymuned ac ar draws ystod y partneriaethau yr ymwelon â nhw yn rhan o'r astudiaeth hon, gwelom mai ychydig iawn o ddarpariaeth oedd yn cael ei chynnal trwy gyfrwng y Gymraeg. Dywedodd darparwyr fod hyn yn adlewyrchu galw cymharol isel gan ddysgwyr ar gyfer darpariaeth llythrennedd, medrau digidol neu rifedd cyfrwng Cymraeg, ac mae'n gyson â'n canfyddiadau mewn sectorau ôl-orfodol eraill, gan gynnwys rhaglenni medrau hanfodol mewn prentisiaethau (Estyn, 2023a) neu ddarpariaeth Twf Swyddi Cymru+ (Estyn, 2023b).

Mewn ardaloedd lle mae cyfran gymharol uchel o oedolion yn siarad Cymraeg fel eu hiaith bob dydd, er enghraifft yng Ngwynedd ac Ynys Môn, roedd cyflwyno anffurfiol yn aml yn ddwyieithog, ac iaith y dysgu oedd y Saesneg a'r Gymraeg, ond Saesneg oedd iaith yr asesu, fel arfer. Ychydig iawn o ddysgwyr oedd yn dewis cwblhau elfennau achrededig eu cwrs yn Gymraeg, hyd yn oed mewn ardaloedd â chyfran uchel o siaradwyr Cymraeg.

Pan siaradom â dysgwyr i archwilio'r diffyg amlwg yn y galw, daeth ychydig o themâu i'r amlwg. Mewn ardaloedd sy'n naturiol Gymraeg, roedd oedolion sy'n ddysgwyr yn awyddus i wella'u medrau Saesneg, yn hytrach na'u medrau Cymraeg. Roedd y dysgwyr

hyn yn gyfforddus â'u defnydd llafar neu anffurfiol o'r Gymraeg fel iaith bywyd bob dydd neu iaith gymdeithasol yr ystafell ddosbarth, ond yn teimlo bod datblygu Saesneg ar gyfer 'dysgu ffurfiol' yn fwy defnyddiol iddynt, mewn gwirionedd.

Roedd ychydig bach mwy o ddiddordeb damcaniaethol gan ddysgwyr a oedd wedi bod i ysgolion cyfrwng Cymraeg mewn astudio rhifedd trwy gyfrwng y Gymraeg na llythrennedd, oherwydd bod dysgwyr eisoes yn gyfarwydd â geirfa dechnegol mathemateg yn Gymraeg, a byddai ei hailddysgu yn Saesneg yn rhwystr ychwanegol.

Roedd dysgwyr sy'n siarad Cymraeg sy'n dilyn cyrsiau medrau digidol, yn enwedig cyrsiau wedi'u cynllunio i gynorthwyo dysgwyr hŷn, yn nodweddiadol, i ddefnyddio'u dyfeisiau, yn mynegi galw cryfach am gyflwyno trwy gyfrwng y Gymraeg, ar y cyfan.

Roedd dysgwyr sy'n siarad Cymraeg yn siarad yn nhermau blaenoriaethau, hefyd. Iddyn nhw, y flaenoriaeth oedd gwella'u medrau rhifedd neu ddigidol, er enghraifft, ac roedd y cyfrwng iaith ar gyfer dysgu yn llai perthnasol. Mewn ardaloedd sy'n naturiol ddwyieithog, mynegodd dysgwyr awydd hefyd i osgoi eithrio dysgwyr nad ydynt yn siarad Cymraeg yn sgyrsiau'r ystafell ddosbarth os oeddent yn cael eu cynnal yn Gymraeg yn unig.

Pan roedd partneriaethau'n cyflwyno rhaglenni cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog yn effeithiol, roedd hynny'n digwydd yn aml trwy gydweithio cynlluniedig â sefydliadau fel y Mentrau Iaith neu sefydliadau cymunedol eraill sydd eisoes yn darparu ar gyfer oedolion sy'n siarad Cymraeg. Gweler ein hastudiaeth achos, *Cyfleoedd Cymraeg i siaradwyr Cymraeg rhugl, dysgwyr a'r gymuned leol* o Bartneriaeth DOG Rhondda Cynon Taf fel enghraifft (Estyn, 2024b).

Mae dysgu teuluol hefyd yn strategaeth effeithiol ar gyfer ymgysylltu ag oedolion sy'n ddysgwyr neu ddarpar ddysgwyr mewn darpariaeth cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog. Fel rhan o'r astudiaeth hon, gwelsom enghreifftiau, wedi'u hariannu gan ffrwd gyllido Lluosi, yn nodweddiadol, lle mae oedolion yn defnyddio terminoleg Gymraeg fel rhan o raglenni i gynorthwyo plant yn yr ysgol.

**Ciplun ar ddarpariaeth ddwyieithog a ariennir gan Lluosi**

Ym Mhartneriaeth DOG Gogledd Ddwyrain Cymru, roedd darpariaeth anachrededig 'Cryfder mewn rhifau' ('Strength in numbers'), a ariennir gan Lluosi, a gynigir mewn ysgolion i ddatblygu rhifedd gyda rhieni a'u plant, yn defnyddio terminoleg cyfrwng Cymraeg, fel rhifau a thermau mathemategol a ddefnyddir yn aml, i helpu rhieni i gynorthwyo'u plant.

Ym Mhartneriaeth DOG Merthyr Tudful, dywedodd dysgwyr yr hoffent gwrs a oedd yn eu helpu i ddysgu a defnyddio termau Cymraeg syml yn gysylltiedig â rhifedd – i ddatblygu eu medrau Cymraeg personol a hefyd i'w helpu i ddefnyddio'r Gymraeg mewn sgyrsiau a thasgau rhif gyda'u plant.

Mewn cydweithrediad â Dysgu Cymraeg Morgannwg, cynhaliodd tîm Lluosi'r bartneriaeth gwrs deg wythnos anachrededig mewn lleoliad cymunedol. Roedd y cwrs yn cynnwys y canlynol:

- Rhifau o 1 – 100, chwarae bingo, disgrifio rhifau bob dydd (rhifau bysiau, rhifau drysau, rhifau ffôn, cardiau busnes), dweud faint o'r gloch yw hi
- Hoffterau a chasbethau – sawl siwgr mewn te / coffi, faint o fisgedi gyda phaned, gemau bwrdd, dis, cardiau

## Atodiad 1 – partneriaethau DOG a'u hawdurdodau lleol

| Partneriaeth | Awdurdod lleol |
|---|---|
| Addysg Oedolion Cymru | dd/b |
| Pen-y-bont ar Ogwr | Pen-y-bont ar Ogwr (Coleg Pen-y-bont a ariennir yn uniongyrchol ar gyfer cyflwyno) |
| Caerdydd a'r Fro | Caerdydd |
| Caerdydd a'r Fro | Bro Morgannwg |
| Sir Gaerfyrddin | Sir Gaerfyrddin |
| Ceredigion | Ceredigion |
| Conwy a Sir Ddinbych | Conwy |
| Conwy a Sir Ddinbych | Sir Ddinbych |
| Gwent Fwyaf | Blaenau Gwent |
| Gwent Fwyaf | Caerffili |
| Gwent Fwyaf | Sir Fynwy |
| Gwent Fwyaf | Casnewydd |
| Gwent Fwyaf | Torfaen |
| Gwynedd a Môn | Gwynedd |
| Gwynedd a Môn | Ynys Môn |
| Merthyr Tudful | Merthyr Tudful |
| Partneriaeth DOG Gogledd Ddwyrain Cymru | Sir y Fflint |
| Partneriaeth DOG Gogledd Ddwyrain Cymru | Wrecsam |
| Partneriaeth DOG Powys Castell-nedd | Castell-nedd Port Talbot |

| Partneriaeth | Awdurdod lleol |
|---|---|
| Port Talbot | |
| Partneriaeth DOG Powys Castell-nedd Port Talbot | Powys |
| Sir Benfro | Sir Benfro |
| Rhondda Cynon Taf | Rhondda Cynon Taf |
| Abertawe | Abertawe |

## Dulliau a sail y dystiolaeth

Mae canfyddiadau'r adroddiad hwn wedi'u seilio ar y canlynol:

- Ymweliadau wyneb yn wyneb gan Arolygwyr Ei Fawrhydi ac Arolygwyr Cymheiriaid ag 8 o'r 13 partneriaeth DOG ac ag Addysg Oedolion Cymru, y coleg addysg bellach ar gyfer dysgu oedolion
- Ymatebion i gais am ddata i ddarparwyr arweiniol am ddarpariaeth eu partneriaeth eu hunain
- Ymatebion i holiadur dienw ar-lein ar gyfer tiwtoriaid a rheolwyr mewn partneriaethau DOG
- Dadansoddi data cyhoeddedig o'r Adroddiad Canlyniadau Dysgwyr a dadansoddi data sylfaenol Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru gan ystadegwyr Medr
- Gwybodaeth o'n harolygiadau diweddar ac ymweliadau arolygwyr cyswllt â phartneriaethau DOG

### Ymweliadau â darparwyr

Cynhaliwyd ymweliadau yn ystod tymor yr Hydref 2024 a thymor yr Haf 2025. Roeddent fel arfer wedi'u lleoli ar safle'r darparwr arweiniol ac yn cynnwys cynrychiolwyr o'r darparwr arweiniol a phartneriaid eraill.

Ymwelom ag Addysg Oedolion Cymru a'r wyth partneriaeth ganlynol: Caerdydd a'r Fro, Gwent Fwyaf, Gwynedd a Môn, Gogledd Ddwyrain Cymru (Sir y Fflint a Wrecsam), Powys Castell-nedd Port Talbot, Sir Benfro, Rhondda Cynon Taf, Abertawe.

Roedd ymweliadau'n cynnwys y gweithgareddau canlynol:

- Cyfarfod ag uwch reolwr / uwch reolwyr
- Cyfarfod ag arweinwyr y cwricwlwm / rheolwyr gweithredol sydd â chyfrifoldeb am ddarpariaeth medrau llythrennedd, rhifedd a/neu ddigidol
- Cyfarfod â staff addysgu sy'n cyflwyno medrau llythrennedd, rhifedd a/neu ddigidol
- Arsylwadau a/neu daith/deithiau dysgu o amgylch darpariaeth medrau llythrennedd, rhifedd neu ddigidol. Roedd y rhain yn cynnwys sgyrsiau â dysgwyr a thrafodaethau proffesiynol â'r tiwtor/tiwtoriaid oedd yn cyflwyno'r sesiwn/sesiynau
- Cyfarfod â grŵp ffocws o ddysgwyr

At ei gilydd, siaradom â thua 120 o ddysgwyr.

Hefyd, gofynnom i'r wyth partneriaeth yr ymwelom â nhw ac Addysg Oedolion Cymru ddychwelyd cais am ddata am ddarpariaeth eu partneriaeth eu hunain, yn cynnwys gwybodaeth am y canlynol:

- Ystod y cyrsiau yr oeddent yn eu cynnig ar gyfer medrau llythrennedd, rhifedd

neu ddigidol
- Teitlau'r cyrsiau a theitl y cymhwyster cysylltiedig, os oedd yn berthnasol
- Ar gyfer cyrsiau achrededig, y sefydliad dyfarnu
- P'un a oedd y cwrs wedi'i achredu
- Cyfrwng iaith y cyflwyno (Cymraeg / Saesneg / Dwyieithog)
- Y ffrwd gyllido (e.e. addysg bellach, CLG, Lluosi)

Ymatebodd pob un o'r naw partneriaeth / darparwr. Roedd angen cofnodi rhywfaint o ddata â llaw i ganiatáu dadansoddi cyson.

## Holiaduron ar-lein

Estynnom wahoddiad i bob partneriaeth rannu dolen at holiadur dienw ar-lein i staff a rheolwyr ei lenwi. Roedd yr holiadur yn agored rhwng 18 Hydref a 29 Tachwedd 2024. Roedd yr holiadur yn cynnwys cyfuniad o gwestiynau ymateb caeedig ac agored, a'r ymatebion agored yn cael eu dadansoddi i nodi themâu allweddol. Cawsom 114 o ymatebion i'r holiadur.

Roedd y sampl yn hunanfyfyriol, sy'n golygu nad yw'n gynrychioliadol a gallai'r holiadur fod yn agored i duedd hunanddewis (h.y. yn fwy tebygol o gael ei lenwi gan y rhai sydd â 'rhywbeth i'w ddweud' a'r rhai sydd â mynediad at y dechnoleg sydd ei hangen i'w lenwi, fel cysylltiad rhyngrwyd). Gellir dod o hyd i gopïau o'r holiadur a ddefnyddiom ar gyfer yr adolygiad thematig hwn ar y dudalen gyhoeddi.

## Methodoleg ar gyfer dadansoddi set ddata Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru a gynhaliwyd gan ystadegwyr Medr

Bu ystadegwyr Medr yn dadansoddi'r data yn set ddata Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru. Mae'r data'n cwmpasu dysgu oedolion yn y gymuned awdurdodau lleol, a dysgu oedolion yn y gymuned a gyflwynir gan golegau. Nid yw'n cynnwys addysg bellach ran-amser nac amser llawn a gyflwynir gan golegau.

Mae'r data wedi'i seilio ar weithgareddau a gyflwynir yn y meysydd hynny. Lleihawyd gweithgareddau yn ôl y meysydd pwnc is-sector canlynol:

- 2.2 Mathemateg ac Ystadegau
- 6.2 Technoleg ddigidol (defnyddwyr)
- 12.1 Ieithoedd, llenyddiaeth a diwylliant Ynysoedd Prydain
- 14.1 Sylfeini ar gyfer dysgu a bywyd

14.2 Nid oedd Paratoi ar gyfer gwaith wedi'i gynnwys. Ni chafodd cyrsiau UG a Safon Uwch, Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill a Chymraeg Ail Iaith eu cynnwys.

Pennwyd bod pob un o'r gweithgareddau yn 6.2 yn fedrau sylfaenol llythrennedd digidol. Pennwyd pob un o'r gweithgareddau yn 2.2 yn fedrau sylfaenol rhifedd. Cafodd gweithgareddau yn 12.1 ac 14.1 eu harchwilio â llaw ar sail eu teitl a adroddwyd ar Gofnod Dysgu Gydol Oes Cymru, a'u nodi fel medrau sylfaenol llythrennedd, rhifedd neu lythrennedd digidol.

Gan fod y broses yn cynnwys nodi â llaw, ni fydd hon wedi bod yn set ddata gynhwysfawr o fedrau sylfaenol llythrennedd, llythrennedd digidol na rhifedd. Bydd rhai gweithgareddau wedi cael eu cam-gategoreiddio.

Mae'r holl ddata'n cyfeirio at flwyddyn academaidd 2022-2023. Mae materion hysbys â rhywfaint o'r data dysgu oedolion yn y gymuned yn y flwyddyn honno.

## Geirfa

| Term | Diffiniad |
|---|---|
| Anghenion cymorth ychwanegol | Anghenion dysgu sydd efallai neu efallai ddim yn dod o fewn cwmpas Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (ADYTA) (2018) ond mae angen cymorth ychwanegol ar y dysgwyr, serch hynny |
| Asiantaeth Sgiliau Sylfaenol | Asiantaeth a ariennir yn gyhoeddus a oedd yn bodoli ar ddechrau'r 2000oedd i gefnogi 'sgiliau sylfaenol' – "y gallu i ddarllen, ysgrifennu, a siarad yn Saesneg (neu yn Gymraeg), a defnyddio mathemateg ar lefel sy'n angenrheidiol i weithredu yn y gwaith ac mewn cymdeithas yn gyffredinol". Cynhyrchodd lawer o adnoddau, gan gynnwys asesiadau cychwynnol ar bapur ar gyfer llythrennedd a rhifedd. |
| Athro / Tiwtor | Mae'r termau 'athro' a 'thiwtor' ill dau yn cael eu defnyddio yn y sector. At ddibenion yr adroddiad hwn, er cysondeb, rydym wedi defnyddio'r term 'tiwtor', gyda'r bwriad i allu defnyddio'r term yn gyfnewidiol ag 'athro'. |
| CBAC | Cyd-bwyllgor Addysg Cymru – Sefydliad dyfarnu, sy'n achredu cymwysterau Sgiliau Hanfodol Cymru, yn ogystal â chymwysterau eraill. Gweler https://www.cbac.co.uk/ |
| CDGOC | Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru – cronfa ddata y mae darparwyr yn ei defnyddio i gofnodi gwybodaeth am ddysgwyr a gweithgarwch dysgu. Fe'i perchnogir gan Medr/LlC. Mae'n llywio cyllid a data perfformiad a deilliannau swyddogol. |
| CDU | Cynllun dysgu unigol. Mae CDUau yn diffinio nodau academaidd, personol neu gyflogaeth dysgwr ac wedi'u bwriadu i helpu strwythuro a chynllunio sut mae dysgwyr yn gweithio tuag at eu nodau. |

| | |
|---|---|
| CGA | Cyngor y Gweithlu Addysg – y rheoleiddiwr proffesiynol ar gyfer y gweithlu addysgu yng Nghymru. Gweler https://www.ewc.wales/ |
| Cymwysterau Sgiliau Hanfodol Cymru | Cymwysterau ffurfiol o lefel mynediad i lefel 3 mewn Cyfathrebu, Cymhwyso Rhif a Llythrennedd Digidol. Gweler https://cymwysterau.cymru/gwybodaeth-a-chefnogaeth/dysgwyr-rhieni-a-gofalwyr/cymwysterau-ar-gael-yng-nghymru/cymwysterau-cyffredinol/sgiliau-hanfodol-cymru/ |
| Dysgu oedolion yn y gymuned (DOG) / Dysgu oedolion a'r gymuned | Mae Estyn yn defnyddio'r term 'dysgu oedolion yn y gymuned' (DOG) i ddisgrifio'r sector hwn. Caiff y term 'dysgu oedolion a'r gymuned' ei ddefnyddio'n eang i ddisgrifio'r sector, hefyd. At ddibenion yr adroddiad hwn, mae'r ddau derm yn gyfystyron ac yn disgrifio'r un sector. |
| Dysgu Teuluol | Darpariaeth, sydd fel arfer wedi'i lleoli mewn ysgol neu leoliad cymunedol, lle mae oedolion a phlant yn dysgu gyda'i gilydd. Yn dibynnu ar y lleoliad, cynhelir gweithgareddau dysgu ar gyfer oedolion yn unig a gweithgareddau dysgu cymysg ar gyfer oedolion a phlant. Gall sesiynau ganolbwyntio ar fedrau dysgu sydd wedyn yn cael eu cymhwyso i gefnogi dysgu'r plant neu ble caiff anghenion dysgu personol yr oedolion eu hunain eu nodi a'u cefnogi hefyd trwy gyfeirio neu addysgu uniongyrchol. |
| Lluosi | Roedd menter Lluosi yn fenter gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig a ariennir trwy Gronfa Ffyniant Gyffredin y Deyrnas Unedig, rhwng 2022 a 2025. Ei hamcan cyffredinol oedd cynyddu lefelau rhifedd gweithredol yn y boblogaeth oedolion ledled y Deyrnas Unedig. Gweler https://www.gov.uk/government/publications/uk-shared-prosperity-fund-prospectus/multiply-in-scotland-wales-and-northern-ireland |
| Mentrau Iaith | Mae'r 22 menter iaith yn sefydliadau cymunedol sy'n gweithio i 'greu cyfleoedd lle gall unrhyw un a phawb fwynhau defnyddio'r Gymraeg bob dydd o fewn eu cymunedau'. Gweler https://mentrauiaith.cymru |

| | |
|---|---|
| Partneriaeth / Darparwr | Rydym yn defnyddio'r term 'partneriaeth' i ddisgrifio'r bartneriaeth DOG fel endid, a allai gynnwys nifer o 'ddarparwyr' sy'n gwneud y cyflwyno. Gallai darparwr fod yn adran addysg awdurdod lleol, yn goleg addysg bellach, yn ddarparwr addysg breifat, neu'n gorff y trydydd sector sy'n cyflwyno addysg. |
| Proffil pigfain | Ystod dysgwr o gryfderau a gwendidau. Mae'r term yn deillio o allbwn meddalwedd asesu cychwynnol sy'n dangos mewn fformat graff pa mor dda y mae dysgwyr wedi perfformio yn erbyn y medrau amrywiol sy'n cael eu gwirio yn yr asesiad. Dangosir cryfderau fel pigau, a gwendidau fel pantiau – felly 'proffil pigfain'. Mae'r term yn cydnabod bod pethau y gall pob dysgwr eu gwneud yn gymharol dda, a phethau eraill ddim cystal. Os yw'r offeryn asesu cychwynnol neu ddiagnostig yn gywir, gall tiwtoriaid ddefnyddio proffil dysgwr i ganolbwyntio dysgu ar feysydd gwendid presennol neu adeiladu ar gryfderau presennol. |
| Sefydliadau Dyfarnu | Sefydliadau sy'n dyfarnu ac yn achredu cymwysterau. Gweler https://awarding.org.uk/ |
| WEST | Pecyn Cymorth Sgiliau Hanfodol Cymru – Set o offer ar-lein a ddatblygwyd i'w defnyddio gan ddarparwyr addysg yng Nghymru gyda chymorth a chyllid gan Lywodraeth Cymru. Rhyddhawyd y pecyn cymorth yn wreiddiol yn 2014. Gweler https://www.walesessentialskills.com |

## Niferoedd – symiau a chyfrannau

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

## Cyfeiriadau

Agored Cymru (2025) *Canllaw Cymhwyster*. [ar-lein] Ar gael yn: https://www.agored.cymru/Canllaw-Cymhwyster/38 [Darllenwyd 17 Mehefin 2025].

CGA (2024a) *Cymwysterau gorfodol ar gyfer ymarferwyr dysgu oedolion.* [ar-lein] Ar gael yn: https://www.ewc.wales/site/index.php/en/documents-eng/registration/applying-for-or-renewing-registration/1188-adult-learning-qualifications-may-2024/file [Darllenwyd 17 Mehefin 2025].

CGA (2024b) *Ystadegau'r Gweithlu Addysg*. [ar-lein] Ar gael yn: https://www.ewc.wales/site/index.php/cy/amdanom-ni/polisi-ac-ymchwil/ystadegaur-gweithlu-addysg [Darllenwyd 17 Mehefin 2025].

CGA (2025) *Gwybodaeth am Gofrestru i Gyflogwyr – Ymarferwyr Addysg Oedolion*. [ar-lein] Ar gael yn: https://www.ewc.wales/site/index.php/cy/cofrestru/gwybodaeth-cofrestru-i-gyflogwyr/gwybodaeth-am-gofrestru-i-gyflogwyr-ymarferwyr-addysg-oedolion [Darllenwyd 17 Mehefin 2025].

Cymwysterau Cymru (2025) *Sgiliau Hanfodol Cymru*. [ar-lein] Ar gael yn: https://cymwysterau.cymru/gwybodaeth-a-chefnogaeth/dysgwyr-rhieni-a-gofalwyr/cymwysterau-ar-gael-yng-nghymru/cymwysterau-cyffredinol/sgiliau-hanfodol-cymru/ [Darllenwyd 17 Mehefin 2025].

Dysgu Cymraeg. *Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol*. [ar-lein] Ar gael yn: https://dysgucymraeg.cymru/amdanom-ni/y-ganolfan-dysgu-cymraeg-genedlaethol/ [Darllenwyd 17 Mehefin 2025].

Estyn (2020a) *Grwpiau sy'n anodd eu cyrraedd: Adroddiad ymgynghori*. [ar-lein] Estyn. Ar gael yn: https://www.estyn.llyw.cymru/system/files/2021-11/Estyn%2520Hard%2520to%2520Reach%2520consultation%2520report%2520cy.pdf [Darllenwyd 18 Gorffennaf 2025].

Estyn (2020b) *Annog dysgu fel teulu.* [ar-lein] https://www.estyn.llyw.cymru/adnoddau-gwella/annog-dysgu-fel-teulu/ [Darllenwyd 18 Mehefin 2025]

Estyn (2020c) *Ysgolion cymunedol: teuluoedd a chymunedau wrth wraidd bywyd ysgol*. [ar-lein] Ar gael yn: https://www.estyn.llyw.cymru/adnoddau-gwella/ysgolion-cymunedol-teuluoedd-a-chymunedau-wrth-wraidd-bywyd-ysgol/ [Darllenwyd 19 Mehefin 2025]

Estyn (2022a) *Adroddiad Blynyddol 2021–2022 – A1 PDF*. [pdf] Ar gael yn: https://www.estyn.llyw.cymru/system/files/2023-10/Estyn-Adroddiad-Blynyddol-PAEF-2021-2022-AA1.pdf [Darllenwyd 17 Mehefin 2025].

Estyn (2022b) *Dysgu Teuluol*. [ar-lein] Ar gael yn: https://www.estyn.llyw.cymru/adnoddau-gwella/dysgu-teuluol/ [Darllenwyd 17 Mehefin 2025].

Estyn (2022c) *Adroddiad ar ddarpariaeth dysgu oedolion yn y gymuned Partneriaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned Sir Benfro*. [ar-lein]. Ar gael yn: https://www.estyn.llyw.cymru/app/uploads/2022/06/Adroddiad-arolygiad-Partneriaeth-Dysgu-Oedolion-yn-y-Gymuned-Sir-Benfro-2022_0.pdf [Darllenwyd 18 Mehefin 2025]

Estyn (2023a) *Cyflwyno cymwysterau Sgiliau Hanfodol Cymru mewn rhaglenni prentisiaeth*. [pdf] Ar gael yn: https://www.estyn.llyw.cymru/system/files/2023-11/Cyflwyno%20cymwysterau%20Sgiliau%20Hanfodol%20Cymru%20mewn%20rhaglenni%20prentisiaeth_0.pdf [Darllenwyd 17 Mehefin 2025].

Estyn (2023b) *Rhaglen ieuenctid Twf Swyddi Cymru+ - Mewnwelediadau hydref 2023*. [ar-lein] Ar gael yn: https:// https://www.estyn.llyw.cymru/adnoddau-gwella/rhaglen-ieuenctid-twf-swyddi-cymru-mewnwelediadau-hydref-2023/ [Darllenwyd 17 Mehefin 2025].

Estyn (2023c) *Adroddiad ar ddarpariaeth dysgu oedolion yn y gymuned Partneriaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned Caerdydd a'r Fro*. [ar-lein] Ar gael yn: https://www.estyn.llyw.cymru/system/files/2023-07/Adroddiad%20arolygiad%20Partneriaeth%20Dysgu%20Oedolion%20yn%20y%20Gymuned%20Caerdydd%20ar%20Fro%202023.pdf [Darllenwyd 18 Mehefin 2025]

Estyn (2024a) *Dysgu Oedolion yn y Gymuned – Adroddiad Blynyddol 2024*. [ar-lein] Ar gael yn: https://adroddiad-blynyddol.estyn.llyw.cymru/2024-2/dysgu-oedolion-yn-y-gymuned/ [Darllenwyd 17 Mehefin 2025].

Estyn (2024b) *Cyfleoedd Cymraeg i siaradwyr Cymraeg rhugl, dysgwyr a'r gymuned leol*. [ar-lein] Ar gael yn: https://www.estyn.llyw.cymru/adnoddau-gwella/cyfleoedd-cymraeg-i-siaradwyr-cymraeg-rhugl-dysgwyr-ar-gymuned-leol/ [Darllenwyd 17 Mehefin 2025].

Estyn (2025a) *Olrhain dilyniant dysgwyr dysgu oedolion yn y gymuned*. [ar-lein] Ar gael yn: https://www.estyn.llyw.cymru/adnoddau-gwella/olrhain-dilyniant-dysgwyr-dysgu-oedolion-yn-y-gymuned/ [Darllenwyd 17 Mehefin 2025].

Estyn (2025b) *Adnoddau arweiniad arolygu*. [ar-lein] Ar gael yn: https://www.estyn.llyw.cymru/adnoddau-arweiniad-arolygu/ [Darllenwyd 17 Mehefin 2025].

Estyn (2025c). *Cynyddu defnydd o'r Gymraeg yn y sectorau ôl-16* [ar-lein] Ar gael yn: https://www.estyn.llyw.cymru/adnoddau-gwella/adroddiad-thematig-cynyddu-defnydd-or-gymraeg-yn-y-sectorau-ol-16/ [Darllenwyd 17 Mehefin 2025].

Ffederasiwn y Cyrff Dyfarnu. *Hafan*. [ar-lein] Ar gael yn: https://awarding.org.uk/ [Darllenwyd 17 Mehefin 2025].

Llywodraeth Cymru (2011) *Arolwg Cenedlaethol o Sgiliau Oedolion Cymru: 2010.* [ar-lein] Ar gael yn: https://www.llyw.cymru/arolwg-cenedlaethol-o-sgiliau-oedolion-cymru-2010 [Darllenwyd 19 Mehefin 2025]

Llywodraeth Cymru (2024a) *Addysg bellach, dysgu seiliedig ar waith a dysgu cymunedol: Awst 2022 i Orffennaf 2023*. [ar-lein] Ar gael yn: https://www.llyw.cymru/addysg-bellach-dysgu-seiliedig-ar-waith-dysgu-cymunedol-awst-2022-i-gorffennaf-2023 [Darllenwyd 17 Mehefin 2025].

Llywodraeth Cymru (2024b) *Mesurau deilliannau dysgwyr ar gyfer prentisiaethau a dysgu oedolion yn y gymuned: Awst 2022 i Orffennaf 2023*. [ar-lein]. https://www.llyw.cymru/mesurau-deilliannau-dysgwyr-ar-gyfer-prentisiaethau-a-dysgu-oedolion-awst-2022-i-orffennaf-2023 [Darllenwyd 17 Mehefin 2025]

Llywodraeth Cymru (2024c) *Datganiad o flaenoriaethau strategol ar gyfer addysg drydyddol ac ymchwil ac arloesi*. [ar-lein] Ar gael yn: https://www.llyw.cymru/datganiad-o-flaenoriaethau-strategol-ar-gyfer-addysg-drydyddol-ac-ymchwil-ac-arloesi-html [Darllenwyd 19 Mehefin 2025]

Llywodraeth Cymru (2025) *Lefel y cymwysterau uchaf a ddelir gan oedolion o oed gweithio: 2024* [ar-lein] Ar gael yn: https://www.llyw.cymru/lefel-y-cymwysterau-uchaf-ddelir-gan-oedolion-o-oed-gweithio-2024-html [Darllenwyd 19 Mehefin 2025]

Llywodraeth y Deyrnas Unedig (2018) Adult education: why adults decide to study. [ar-lein] Ar gael yn: https://www.gov.uk/government/publications/adult-education-why-adults-decide-to-study [Darllenwyd 19 Mehefin 2025]

Llywodraeth y Deyrnas Unedig (2022) *UK Shared Prosperity Fund – Interventions List for Wales*. [ar-lein] Ar gael yn: https://www.gov.uk/government/publications/uk-shared-prosperity-fund-interventions-outputs-and-indicators/interventions-list-for-wales [Darllenwyd 17 Mehefin 2025].

Llywodraeth y Deyrnas Unedig (2022b) *Multiply in Scotland, Wales and Northern Ireland – UK Shared Prosperity Fund Prospectus*. [ar-lein] Ar gael yn: https://www.gov.uk/government/publications/uk-shared-prosperity-fund-prospectus/multiply-in-scotland-wales-and-northern-ireland [Darllenwyd 17 Mehefin 2025].

Llywodraeth y Deyrnas Unedig (2022c) *UKSPF Allocations*. [ar-lein] Ar gael yn: https://www.gov.uk/government/publications/uk-shared-prosperity-fund-prospectus/ukspf-allocations [Darllenwyd 17 Mehefin 2025].

Medr (2025) *Sta/Medr/06/2025: Addysg bellach, dysgu seiliedig ar waith a dysgu cymunedol, Awst 2023 i Orffennaf 2024*. Ar gael yn: https://www.medr.cymru/cy/Newyddion/sta-medr-06-2025-addysg-bellach-dysgu-seiliedig-ar-waith-a-dysgu-cymunedol-awst-2023-i-orffennaf-2024/ [Darllenwyd 18 Mehefin 2025]

Medr (2025b) *Sta/Medr/07/2025: Mesurau deilliannau dysgwyr ar gyfer prentisiaethau, Awst 2023 i Orffennaf 2024.* Ar gael yn: https://www.medr.cymru/cy/Newyddion/sta-medr-07-2025-mesurau-deilliannau-dysgwyr-ar-gyfer-prentisiaethau-awst-2023-i-orffennaf-2024/ [Darllenwyd 18 Mehefin 2025].

Medr (2025c) *Cyllid i Ddarparwyr*. [ar-lein] Ar gael yn: https://www.medr.cymru/cy/cyllid-i-ddarparwyr/ [Darllenwyd 17 Mehefin 2025].

Medr (2025d) *Dyraniadau dysgu ôl-16 awdurdodau lleol 2022-2025*. [ar-lein] https://www.medr.cymru/wp-content/uploads/2025/06/Post-16-local-authority-adult-community-learning-allocations-2022-25.pdf [Darllenwyd 18 Mehefin 2025]

Medr (2025e) *Pwy ydym ni*. [ar-lein] Ar gael yn: https://www.medr.cymru/cy/pwy-ydym-ni/ [Darllenwyd 19 Mehefin 2025]

Mentrau Iaith Cymru. *Y Mentrau Iaith*. [ar-lein] Ar gael yn: https://mentrauiaith.cymru/amdanom-ni/ein-gwaith/ [Darllenwyd 17 Mehefin 2025].

Merched y Wawr, *Hafan*. [ar-lein] Ar gael yn: https://www.merchedywawr.cymru/ [Darllenwyd 17 Mehefin 2025].

Urdd Gobaith Cymru. *Hafan*. [ar-lein] Ar gael yn: https://www.urdd.cymru/cy/ [Darllenwyd 17 Mehefin 2025].

WEST (2025) *Pecyn Cymorth Sgiliau Hanfodol Cymru, Hafan*. [ar-lein] Ar gael yn: https://www.walesessentialskills.com/ [Darllenwyd 17 Mehefin 2025].

Y Sefydliad Dysgu a Gwaith (2024). *Arolwg Cyfranogiad Oedolion mewn Dysgu 2023: Cymru* [ar-lein] Ar gael yn: https://learningandwork.org.uk/wp-content/uploads/2024/08/Adult-Participation-in-Learning-Survey-2023-Cymru-1.pdf [Darllenwyd 17 Mehefin 2025].

Y Sefydliad Dysgu a Gwaith (2025). *Fframwaith Dysgu fel Teulu*. [ar-lein] Ar gael yn: https://www.sefydliaddysguagwaith.cymru/maer-hyn-a-wnawn/dysgu-gydol-oes/dysgu-fel-teulu/ [Darllenwyd 03 Gorffennaf 2025]